# RHWNG GWŶR PEN-TYRCH

R. Elwyn Hughes

# RHWNG GWŶR PEN-TYRCH

Digwyddiadau mewn plwyf yn
ne Morgannwg yn ail hanner y
bedwaredd ganrif ar bymtheg

R. Elwyn Hughes

Pen-tyrch 2000

**Rhwng Gwŷr Pen-tyrch**

Argraffwyd can copi yn unig

Tachwedd 2000

Pris £4.50 y copi (£5.00 trwy'r post) oddi wrth yr awdur
(Bryn Catwg, Pentyrch, Caerdydd CF15 9QF)

Trosglwyddir unrhyw elw i Fudiad Meithrin Cymraeg y cylch



## Eglurhad

Mae nifer o agweddau ar hanes a datblygiad ardal Pen-tyrch eisoes wedi derbyn sylw dyladwy. Mae'r datblygiadau diwydiannol y bu cyfran uchel o'r boblogaeth yn rhan annatod ohonynt yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u trafod gan nifer o sylwebyddion, yn bennaf, gan Edgar L. Chappell yn ei *Historic Melingriffith,* (arg. newydd, Philip Riden, Caerdydd, 1995) ac, mewn dull rhywfaint yn fwy anecdotaidd, gan John Tyler yn ei *Iron in the soul* (Ffynnon Taf, 1988). Cafwyd arolwg synoptig o hanes y plwyf gan J. B. Davies yn ei erthygl 'The parish of Pentyrch' (*Glamorgan Historian* 1 (1963) 77 – 87) ac yn 1987 cyhoeddodd Margaret Davies *A study of local government in Pentyrch in the nineteenth century* (Caerdydd, 1987). Yn nes at ein dyddiau ni, bu'r anghymharol Don Llewellyn yn gyfrifol am gofnodi llawer o lên gwerin a hanes diweddar yr ardal yn ei *Pentyrch, Creigiau and Gwaelod y Garth* (Stroud, 1997) ac yn ei erthyglau yn *Y Casglwr* ac yn *The Garth Domain.*

Yn ystod y blynyddoedd diweddar hyn bu'n rhaid imi, am wahanol resymau, ddarllen nifer o gylchgronau Cymraeg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'm trawyd gan amled y cyfeiriadau at ddigwyddiadau yn ardal Pen-tyrch, digwyddiadau na fyddai sôn amdanynt yn y cyhoeddiadau Saesneg cyfatebol. Bu *Y Gwladgarwr,* wythnosolyn radicalaidd a gylchredai rhwng Aberdâr a Chaerdydd yn ail hanner y ganrif, yn neilltuol o ddadlennol yn hyn o beth. Cyneuwyd fy niddordeb yn y lle cyntaf gan ohebiaeth yn ei dudalennau yn 1861 ynghylch dull ymddangosiadol unbeniaethol y ficer (Y Parchedig Horatio Thomas) a'r ysgolfeistr (Charles Prichard) o gynnal yr ysgol leol. Daeth yn amlwg fod y ddau hyn yn ddynion o gryn bwys a dylanwad yn y pentref ac fe'm symbylwyd i geisio darganfod

mwy am eu hamryfal weithgareddau. Ar ryw olwg nid yw'r nodiadau hyn ond yn sylwebaeth ar agweddau ar fywyd a gweithgareddau'r ddeuddyn hyn; nid rhyfedd hyn o ystyried eu lle canolog ym mywyd cymdeithasol Pen-tyrch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Synnais fod cynifer o weithgareddau cymdeithasol yn digwydd yn yr ardal. Sylweddolais yn fuan fod yma wedd ar fywyd cymdeithasol y plwyf nad oedd yn hysbys ond yn nhudalennau'r cylchgronau Cymraeg. A chan fod cynifer o'r ffynonellau yn gylchgronau nas ceir ond yn y llyfrgelloedd arbenigol, rwy wedi mentro cynnwys dyfyniadau gweddol gyflawn o rai ohonynt.

Rhaid imi gydnabod y cymorth cwrtais a dderbyniais bob amser gan y gwahanol awdurdodau - yn fwyaf arbennig Y Llyfrgell Genedlaethol, Llyfrgell Salisbury Prifysgol Cymru Caerdydd (Peter Keelan), Llyfrgell Dinas Caerdydd (Brynmor Jones), Swyddfa Cofnodion Morgannwg, Archifdy'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf (Neville James) ac Archifdy Amgueddfa Werin Cymru (Arwyn Lloyd Hughes). Cefais drafodaethau buddiol gyda phedwar o drigolion Pen-tyrch: Mrs E. Cugley (un o ddisgynyddion teulu Horatio Thomas), Don Llewellyn, Thomas Llewellyn a T.W.Thomas (a fu farw, ysywaeth, cyn imi gwblhau'r nodiadau hyn). Mawr yw fy niolch iddynt am eu cymorth, eu hamynedd a'u cwrteisi.

Mae'r blynyddoedd diweddar hyn wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y Cymry Cymraeg yn ardal Pen-tyrch ac er mai i mi fy hunan y paratois y nodiadau hyn yn y lle cyntaf, tybiais y gallent bellach fod o beth diddordeb i eraill hefyd.

Pen-tyrch, Tachwedd 2000.



## Rhwng Gwŷr Pen-tyrch

Roedd 1861 yn flwyddyn gythryblus i drigolion Pen-tyrch - plwyf a phentref rhwng Caerdydd, Pontypridd a Llantrisant. Ymestynnai'r plwyf, yr adeg honno, o Gastell Mynach a Rhydlafar yn y de i'r ardal sy'n cyfateb heddiw i Waelod-y-Garth yn y gogledd. Cynhwysai'r plwyf yn 1861 ryw 1590 o drigolion - nifer sylweddol ohonynt yn ymwneud â gwaith amaethyddol ond y rhan fwyaf yn gyflogedig yn y gweithfeydd glo a haearn cyfagos. Hyd yn oed yn nechrau'r ugeinfed ganrif Cymraeg oedd iaith y plwyf 'the nearest thoroughly Welsh-speaking parish to Cardiff' meddai John Hobson Mathews yn ei *Cardiff Records* yn 1905 a hyn ar adeg, a dyfynnu'r un awdur, pan oedd 'specimens of the aboriginal Welsh-speaking Cardiffian' yn brin iawn.

Lleolwyd prif weithgareddau cymdeithasol y plwyf yn y capeli a'r eglwys ac, i raddau llai, ar gyfer y dynion yn unig, yng nghyfrinfeydd yr Odyddion a'r Iforiaid - y cymdeithasau 'cyfeillgar' dyngarol a ymledodd ar draws de Cymru yn hanner cyntaf y ganrif. Bu cyfrinfeydd gweithgar ym Mhen-tyrch ei hunan ('Castell Pentyrch' (rhif 1349) oedd y gangen o'r Odyddion a weithredai yno yn y 1830au) yn ogystal ag yng Ngwaelod-y-Garth, yn Nhongwynlais ac yn Llantrisant gerllaw. Yn 1842 cafwyd gan Thomas Thomas o Ben-tyrch lythyr yn *Yr Haul,* cylchgrawn Eglwysig, yn cyfiawnhau bodolaeth yr Odyddion ac yn argymell gweinidogion ac offeiriaid i'w cefnogi.

Bu dirwest hefyd yn bwnc trafod yn y cyfnod dan sylw ac yn enwedig yn y rhan ogleddol o'r plwyf - y rhan ddiwydiannol a gyfatebai i'r Gwaelod-y-Garth modern - ardal lle bu meddwdod yn rhemp, weithiau gyda chanlyniadau alaethus, megis yn yr achos a gofnodwyd yn *Ystorfa y Bedyddwyr* yn 1839 (t. 324):

Un o'r enw John James, Tyddynwr, o Bentyrch, ger Caerdydd, pan yn dychwelyd adref o'r lle uchod, galwodd mewn tafarndy (*Portobello)* [Ffynnon Taf], efe a ddaliodd bunt â pherson oedd yn y tŷ ar y pryd, yr elai efe a'i geffyl trwy yr afon yn ddiogel adref y noson honno; yr oedd cryn orlifiad yn yr afon (sef Taf) beth bynnag, gwnaeth yr antur; ond drwg fu y tro, cariwyd ef a'i geffyl ymaith gyda y llif. Cafwyd y ceffyl yn fyw gryn ffordd oddiwrth y fan yr aeth ef i'r afon, ond efe ni chafwyd cyn ei fod wedi boddi. Gadawodd wraig a theulu lluosog i alaru ar ei ol. Pa bryd y derfydd rhyfyg dynion?

Ymddengys nad oedd pethau wedi newid yn sylweddol oddi ar ganol y ddeunawfed ganrif; bu cwyno'r adeg honno (yn 1747) fod William Morgan, Ficer Pen-tyrch, yn feddw gaib wrth ddychwelyd ar gefn ei geffyl o Gaerdydd i Ben-tyrch, a hynny am y trydydd tro. Mewn arolwg o 'sefyllfa foesol' Bro Morgannwg yn 1851 cyfeiriwyd at y baganiaeth a oedd yn rhemp yno, capeli'n gwegian dan ddyled a chyndynrwydd y boblogaeth yn gyffredinol i gynnal y gweinidogion mewn dull teilwng. (*Y Diwygiwr* 16 (1851) 290-2)

Dylanwad drwg ym marn llawer oedd Ffair Sulgwyn Llandaf – 'the scene of vice and demoralisation' chwedl y *Cardiff Times* mewn adroddiad ar Fehefin 13 1862. Lluniodd Jenkin Howell o Aberdâr driban i'r un perwyl:

Y mae Llandaf hynafol
Yn ddinas fach esgobol.
Ond rhaid i'm dystio, ar fy ngair,
Mae yno ffair uffernol.

Denai'r Ffair gryn gefnogaeth o ardal Pen-tyrch a'r cyffiniau ac fe fu sawl ymdrech i leihau ei dylanwad ar y trigolion. Mor gynnar â diwedd y pedwar degau yr oedd Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, wedi cychwyn Cymanfa Bregethu Flynyddol i gystadlu â'r Ffair:



Cyfarfod Blynyddol Pentyrch: A gynhaliwyd y Sulgwyn diweddaf yn Bethlehem, Pentyrch, i'r dyben o gadw ieuenctyd, a phawb o'r gymydogaeth, o ffair Llandaf, yr hon a gynhelir ar y Llun Sulgwyn yn flynyddol ac felly y cynhelir y cwrdd ar yr un dydd bob blwyddyn; ac y mae yn hoff genym allu dywedyd ei fod wedi llwyddo i raddau mawr yn ei amcan ....

(*Y Diwygiwr*, 12 (1847) 220)

Yng nghanol y pum degau daeth Pan Jones i weithio fel crydd ym Mhen-tyrch a chael cryn hwyl ar y gwaith. Ymaelododd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth ond fe'i siomwyd gan agwedd lac yr aelodau at ddiota ac ysmygu a phechodau eraill yr oes. Cododd wrychyn y gynulleidfa oherwydd ei safiad o blaid dirwest a hyn, cofier, yn ystod gweinidogaeth oleuedig John Jones, pregethwr 'llym' a adnabyddid ar gyfrif meithder ei bregethau - 'ni wnai fawr o drefn arni heb gael yn agos i awr ati' ('Y Parch John Jones, Pentyrch' *Tywysydd y Plant* 4 (1874) 89-93). Ond bu newid. Yng ngeiriau Pan Jones ei hunan:

'Gofynais yn y Gyfeillach nos Sabath, os caniateid i'r Parch W. Edwards, Aberdare, ddyfod yno i draddodi araeth ar ddirwest. Dim ateb. Gofynais yr un cwestiwn nos Sabath canlynol. Dim atebiad. Gofynais yr un gofyniad drachefn y trydydd Sabath. Ar y gair, bloeddiodd un o wŷr y sêt fawr 'dylai y crwt yna gael ei ddysgyblu am godi terfysg yn yr Eglwys' ... Terfynwyd y Gyfeillach heb i mi gael un atebiad. Yr oedd lle tân yn y Capel fel mewn cegin amaethdy, a dyna chwech o wŷr y sêt fawr a'r gweinidog yn dyfod at y tân ac yn dechrau ysmocio. Dyna y tro cyntaf i mi weled ysmocio mewn capel. Ac yno, yn y mwg, yr oeddynt yn cyhoeddi melldithion ar fy mhen am aflonyddu ar heddwch yr eglwys. Wedi myned adref, anfonodd un o'r chwech ei ferch i geisio chwart o gwrw 'o *spite* i ditotaliaeth y crwt yma' ond cyn 10.30 drannoeth, yr oedd y Cholera wedi ei symud ef i fyd arall. Ar ol hyny, agorwyd y capel i ddirwest ar unwaith, a phan ddaeth Mr Edwards yno, cafodd lonaid y Capel o gynulleidfa' (E. Pan Jones *Oes gofion neu fraslun o hanes fy mywyd* (Bala, d.d.) t. 17)

Ymadawodd Pan Jones ag ardal Pen-tyrch yn niwedd y pum degau ond parhaodd y mudiad dirwest i ennill grym yn yr ardal.

Bu 1859 yn flwyddyn nodedig yn hyn o beth. Cafwyd mynych gyfarfodydd dirwest yng nghapeli Horeb a Phenuel a Bethlehem, a Chôr Gobeithlu Pentyrch â lle amlwg yn y gweithgareddau. Adroddwyd fod 'llewyrch neilltuol ar yr Ysgol Sul a phob moddion eraill ym Methlehem, yn bennaf am fod yr ieuenctyd yno mor ymdrechgar.' Ffrwyth eu hymdrechion oedd fod 'holl brif feddwon y cymydogaethau hyn (sef, 67 ohonynt) wedi ardystio o blaid dirwest'. (*Y Gwladgarwr,* Mai 21, Mai 28, Mehefin 25, Awst 123 ac Awst 27, 1859). Anodd gwadu nad oedd y capeli anghydffurfiol erbyn canol y ganrif yn gryn ddylanwad ar fywyd cymdeithasol Pen-tyrch a'r cyffiniau.

Amharwyd ar y patrwm paradwysaidd hwn ymhen blwyddyn neu ddwy pan ddaeth cynnen ac ymrafael i'r amlwg yn y gymdogaeth. Ymddengys fod ym Mhen-tyrch nifer o bobl a oedd yn ymwybodol o'u hawliau dinesig a chymdeithasol ac yn bwysicach na hyn efallai, nifer a oedd yn barod i leisio eu cwynion ynghylch unrhyw anghyfiawnderau cymdeithasol tybiedig. Yn ystod 1861 cafwyd cryn ohebiaeth yn trafod rhai o'r problemau cymdeithasol hyn yn nhudalennau *Y Gwladgarwr* - wythnosolyn a gyhoeddid yn Aberdâr dan gyfarwyddyd grwp o weinidogion anghydffurfiol lleol. Ni chyfyngai *Y Gwladgarwr* ei weithgareddau i ardal Aberdâr; rhoddai sylw i'r holl ardal a ymestynnai o Aberdâr a Merthyr yn y gogledd i Gaerdydd yn y de gan gynnwys, yn achlysurol, adroddiadau o Ben-tyrch ei hunan.

Yn ystod 1861 bu gohebwyr o Ben-tyrch yn trafod yn ei dudalennau ddwy broblem a oedd yn nodweddiadol o'r newidiadau cymdeithasol a'u hamlygai eu hunain yn ne Cymru'r adeg honno. Yr oedd y ddwy, i ryw raddau, yn adlewyrchu'r un broblem sylfaenol - hawl dybiedig grŵp neu ddosbarth neilltuol i gael dweud y drefn gymdeithasol wrth y gweddill llai breintiedig. Yr enghreifftiau penodol a oedd wrth wraidd y cythrwfl ym Mhen-tyrch oedd cwestiwn y gyfundrefn drwcio a'r 'siop gwaith' - y *company shop* - yn hanner cyntaf y flwyddyn, a



dylanwad honedig yr Eglwys ar yr ysgol leol yn yr ail hanner. Esgorodd y ddwy ddadl hyn ar nifer o lythyrau sylweddol yn *Y Gwladgarwr*. Amlygai rhai o'r llythyrau hyn gryn chwerwedd yn ogystal ag ymosodiadau personol pur ddeifiol. Yn fuan iawn, dirywiodd dadl a gychwynnwyd ar dir egwyddorion yn ddadl *ad hominem* - yn llythrennol felly yn achos Pen-tyrch yn 1861.

Er hyn, mae'r cyfan yn ddrych o fywyd pob dydd mewn pentref diwydiannol yn ne Cymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar un wedd yn gryn deyrnged i ddeallusrwydd a chydwybod cymdeithasol y gymuned. Gofynnodd un llythyrwr o Ben-tyrch am i'r gweithwyr gael derbyn fersiynau Cymraeg o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, yr hyn sy'n tanlinellu pa mor Gymraeg oedd y rhan hon o Gymru yn nechrau ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd bron pawb yn y plwyf yn siarad Cymraeg a nifer sylweddol yn Gymry uniaith, sefyllfa a barhaodd hyd at ddiwedd y ganrif.

Nid oedd dadleuon o'r fath yn gyfyngedig i Ben-tyrch, wrth reswm. Bu trafod ar y materion hyn mewn ardaloedd eraill yn ne Cymru tua'r un adeg. Ond tybiais y byddai rhai am ddarllen am y sefyllfa ym Mhen-tyrch nid yn unig oherwydd ei harwyddocâd cymdeithasol ond hefyd am y goleuni a deifl ar allu trigolion pentref bach ar gyrion Caerdydd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gynnal dadl o sylwedd yn yr iaith Gymraeg - a Chymraeg digon graenus hefyd yn ôl safonau'r cyfnod. Felly, rwy wedi atgynhyrchu rhai o'r llythyrau yn union fel y'u cyhoeddwyd hwy yn *Y Gwladgarwr* a heb ymyrryd dim â'r orgraff, gan dybio fod y cyfan yn hunan-eglurhaol.

......................................

Ar Ionawr 4 1861 dadlennodd y *Cardiff Times* ei bod yn fwriad gan y Meistri Booker (perchenogion gweithfeydd Pen-tyrch) gychwyn cyfundrefn 'drycio' ac agor 'siopau'r cwmni' ar gyfer eu gweithwyr - 'this obnoxious system' chwedl y papur.

Bythefnos yn ddiweddarach dychwelodd y *Cardiff Times* at yr un broblem mewn sylwadau golygyddol pur hallt; codwyd holl gwestiwn cyfreithlondeb y weithred a tharanodd yn erbyn unrhyw gyfyngu ar 'uncontrolled liberty of the worthy men of Pentyrch ... to spend the money they have earned where they please and when they please'

Ymatebodd dynion Pen-tyrch i'r sylwadau hyn, ond yn Gymraeg ac yn nhudalennau *Y Gwladgarwr*. Dechreuodd y cyfan ar Chwefror 16 1861 pan ymddangosodd llythyr 'Sion Chwareteg.'

[Chwefror 16 1861] Pentyrch a'i gylchoedd

Mr Gol., - Bu'r gweithfaoedd perthynol i'r lle hwn am yr haner can mlynedd diweddaf yn un o'r rhai goreu os nad y goraf oll o ran cysondeb ei fynediad, heddwch rhwng meistri a'r gweithwyr, yn nghyda'r parch a'r gofalwch a ddangosai y meistri am yr hen bobl ag oedd wedi treulio eu nerth allan yn eu gwasanaeth. Cadwent draw oddiwrth y gweithwyr bob trais a gormes, a safent fel gwroniaid yn mhob llys o blaid rhyddid a chyfiawnder. Cydymdeimlent â'r gwan, a mynwesent y weddw a'r amddifaid; ond er ein galar, y mae'r tadau wedi eu symud i ffordd yr holl ddaear, a'r meibion wedi dyfod i'w lle, ac mor gynted ag y daethant, dechreuodd y cymylau ymgasglu, ac erbyn heddyw, y mae cynwysiad y cymylau yn dechreu cael ei dywallt ar y canoedd, a hyny o ffiol felldigedig y Truck System. Gwyr pawb nad oes ond y trueni a'r tylodi mwyaf yn canlyn ac yn gordoi [gorchuddio] y lleoedd hyny ag y mae y cyfryw system yn bodoli. Ond er cymaint ydyw y gwarth i'r meistri gyfyngu ar iawnderau eu gweithwyr, dyna y calenig a gafodd gweithwyr ffyddlon a didwyll Pentyrch ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn 1861, oedd cael tair o shopau'r cwmni, a'r pay bob mis; dyna ran o'r phiol, ond am effeithiau sydd yn canlyn y Truck System, gormod gorchwyl yw eu dysgrifio ar hyn o bryd ... [Yn Nhrefforest] lle y mae y Truck System yn ei llawn ogoniant, y mae ugeiniau o weithwyr caled yn suddo o dan eu beichiau trymion ac heb fodd yn y byd i ymryddhau. Y mae edrych ar symudiadau y lle hwn, yn nghyda gwrando cwynion y gweithwyr, yn ddigon i beri i waed dyn o berchen teimlad i rewi yn ei wythenau. Er ys ychydig wythnosau yn ol, yr oedd gwraig barchus i un o'r gweithwyr yn gorfod myned a phwys o tobacco i fasnachdy cyfagos; yr oedd yn werth iddi yn y Company Shop 5s 4c., ond yn gorfod ei werthu am 4s, ac yn ei



hystyried yn gymwynas cael hyny am dano; ond nid yw hono ond un enghraifft o blith canoedd o'r cyffelyb sydd yn bodoli yn y lle hwn yn barhaus; a chan mai wrth y lle hwn y mae Pentyrch wedi cymeryd y plan, nid oes genym ond lle gwan i edrych am well triniaeth, trwy fod ein meistri yn gweithredu wrth yr un rheol ac o dan yr un egwyddor.

Taer erfyniwn ar un o'n golygyddion, neu un o'u gohebwyr, ein anrhegu â llythyr ar y Truck System yn wythnosol, yn nghyda chyfieithiad i'r Gymraeg o'r deddfau perthynol i'r system druenus uchod. Meddyliaf ei bod yn hen bryd i bob dyn Cristionogol i godi ei lef ac ymysgwyd o'r llwch, a gwneud ei ran er gwaredu caethion ynys cred, y rhai sydd yn cael eu hysbeilio o hawliau a breiniau eu gwlad trwy offerynoliaeth y Truck System.

SION CHWARETEG

[Chwefror 23 1861] Gweithiau Glo a Haearn Pentyrch

Hynaws Ddarllenydd, - Tra thebyg dy fod wedi clywed cyn hyn am weithiau glo a haearn Pentyrch a Melin Griffith, yn Nyffryn Taf, rhyw chwech milldir o Gaerdydd, ac o chwech i saith milldir i waered o Pontypridd, ar lan yr afon, ac yn ymyl Rheilffordd Dyffryn Taf. Y maent mewn rhan ar un llaw yn cael eu hamgylchu a'u cysgodi gan fryn uchel a chlogwyn certh, ac ar y llaw arall gan fynydd mawr a chraig ddanheddog - yn ysgyrnygu ei danedd bob amser. Ond y mae ganddynt eu manteision fel gweithiau haearn rhagorolaf ac sydd yn Neheudir Cymru. Y mae ganddynt ddigonedd o ddefnyddiau ac adnoddau mwnawl yn rhad wrth law, ac yn ystorfa oesol o fewn crombil a choluddion yr hen ddaearen. Eu perchenogion ar y cyntaf ydoedd yr hen foneddwr anrhydeddus, Blackmore, Ysw., Lays, Henffordd; wedi hyny y diweddar wladgarwr a boneddwr haelfrydig ac urddasol, T.W.Booker, Ysw., A.S. dros Sir Henffordd, ond yn bresenol y mae yn meddiant ei feibion, J.P. Booker, a T.W. Booker, Ysweiniaid a'u Cyf., Velindre House, ger Caerdydd.

Dyna ddigon o raglith. Yr hyn yr oeddym yn cyrchu ato oedd rhoddi hysbysrwydd am ymddygiad Bookeriaid Pentyrch i'w gweithwyr yn nechreu blwyddyn newydd - rhoddi hysbysrwydd am y cyfarchiad ben blwyddyn dymunol, cydnaws a theimlad, gwladgarol a boneddigaidd y boneddwyr urddasol hyn ar foreu dydd calan 1860 [sic] - y meddwl cysbell, gwibiog hwnw sydd wedi ei loewi gan olew eneiniad teimladaeth gydnaws ac sydd wedi eu meddianu - a'r *enthralment* sydd wedi ymgorffoli tan ei calonau tyner yn ystod y flwyddyn 1860, blwyddyn y diwygiadau mawrion crefyddol

a gwladyddol, ie, y flwyddyn a gyfenwir gan Ewrop yn *annus mirablis:* a dyma hi, Sef fod pob un perthynol i weithiau glo, mwn a haearn Pentyrch i gael eu talu o hyny allan yn ol custom y districk - *draw* bob pymthegnos, a'r pay yn fisol: ac yn ychwanegol at hyny fod ganddynt Domi Shops mewn gwahanol fanau i ateb cyfleusderau y gweithwyr; hefyd mai note i'r shop a fuasai y draw, a'r pay arianol bob mis.

Dyma Druck System gyfaill onide; cangen o gaethwasiaeth, cyfundraeth felldigedig ac sydd yn wenwyn i iawnderau dyn, yn sarhad ar annibyniaeth a rhyddid ewyllys, yn dra-arglwyddiaeth wrthnysig i nodweddiad y genedl Brydeinig, yn lleiddiad cysur teuluaidd, yn faich i lethu'r gweithiwr hyd y llawr rhwng ddwylaw trais a gormes, ac yn beth nas gall un dyn ddal y cysylltiad lleiaf a hi heb aberthu pob egwyddor o gyfiawnder ac ymwerthu i fod yn offeryn gormes ...

Yn awr Mr. Gol., os caniatewch, yr wyf am ddywedyd gair wrth y Pentyrchiaid bob copa walltog. Cydweithwyr, dymunwn alw eich sylw, eich deall, a'ch ystyriaeth ddifrifolaf i fod yn wyliadwrus ar yr hyn sydd mewn rhan yn eu cytundeb. Byddwch yn ofalus rhag mai mater o *form* dros fis neu ddau er cadarnhau eu safle, ydyw hynyna ol yn ngolwg ein meistri. Ymgedwch rhag suddo i'r Shop Cwmni, onide bydd yn *day after date* arnoch am byth. Byddwch ddewr; gwyddoch am yr holl ddyfeisiau a'r areithiau brwd a draddodwyd i chwi, a'r serchogrwydd a ddangoswyd er eich dylanwadu i gymeryd baich a gorthrwm oesol ar eich cefn. Cofiwch am lesiant cyffredinol y wlad. 'Na fydded i'r un glust fod yn nghau, na'r un galon fod yn ddystaw,' ebai Victor Hugo yn Jersey, 'pa le bynag y clywir cri pobl, dylai fod yno adsain yn nghalon pob dyn.' Cofiwch chwithau mai cri gwlad yn gyffredinol ydyw, 'I lawr a Tomi Shops y Truck System.'

DYDD WEITHIWR.

[Mawrth 16 1861] Gweithiau Pentyrch a'r Truck System

Mr. Gol., - Y mae yn hysbys i chwi fod dau lythyr wedi ymddangos yn y ddau rifyn diweddar o'r GWLADGARWR ar y Truck System, fel yr enwir hi. Dywed 'Dydd Weithiwr' a ganlyn am weithwyr Pentyrch, - 'Ac yn beth nas gall un dyn ddal y cysylltiad lleiaf a hi heb aberthu pob egwyddor o gyfiawnder, ac ymwerthu i fod yn offeryn gormes'! Dyma ddarluniad



pwysig onide? Ond nid gwirionedd hynyna beth bynag am Pentyrch hyd yn hyn; am y dyfodol, gadawaf hyny i'r 'Dydd Weithiwr' canys nid wyf broffwyd na mab i broffwyd chwaith ... Yn awr, Mr. Gol., sylwn ar y dull ag y mae y Meistriaid Bookers yn talu i'w gweithwyr. Y maent yn rhoddi *draw* bob pymthegnos i'r cyfryw a fydd am ei chael, yn arian, cofier, ac nid note i'r shop, a hefyd yn fynychach os bydd cais teilwng yn galw am hyny, a'r shop yn agored bob dydd i gael y peth a fynoch o honi; hefyd os carech gael digon dros y mis, y mae i'w gael, a'r shopwr i'w gludo i chwi pe yn byw ddwy filldir oddiwrth y shop, ac y mae y gweithwyr yn cael eu talu ar y pay, ac yn cael talu y shop eu hunain. Felly barned y darllenydd pa sut y geill y 'D.W.' brofi fod gweithwyr Pentyrch wedi ymwerthu yn offerynau gormes.

Efe a sonia hefyd am y strike; dywedaf inau air am dano, sef, o bob peth ag y mae y dosbarth gweithiol wedi gwneud tuag at wella eu hunain, y gwaethaf o'r cwbl yw y strikes: os enillir y dydd ar y meistri, yr hyn ni wneir unwaith o bob deg ag y sefir allan, y mae y meistri yn sicr o ddial y cyfleu cyntaf a ddaw ar eu llaw, sef nid yw y strikes ar y cyfan ond dinystr i'r meistri a'r gweithwyr, ond yr olaf sydd ar lawr fynychaf. O blith y lluaws enghreifftiau o hyn, sylwer ar Cwm yr Hondda, Aberdar, a Chwmafon.

Eto dywed y 'Dydd Weithiwr' 'I lawr a'r Tomy Shops' Yr wyf yn ddigon boddlawn, heb obaith iddynt ail gyfodi cyn nac wedi y dydd olaf. Ac yr wyf yn sicr nad yw yn hyfrydwch gan Meistriaid Bookers weled eu henwau yn nglyn a'r shop, ond yr wyf o'r unfarn a lluaws ereill o'm cydweithwyr, pe heb y shop y buasai yn llawer gwaeth arnom nac y mae ...

Hefyd gwybydded y darllenydd mai nid y gweithwyr sydd yn cwyno, ond y masnachwyr, a diau nid heb achos; canys y mae y shop yn golled fawr iddynt hwy. Nid oes y fath expressions gan weithwyr Pentyrch a'u bod yn cael eu gormesu, &c, nid gan y gweithwyr tan beth bynag.

Felly, yn ngwyneb y ffeithiau uchod, nid yw y Pentyrchiaid wedi ymwerthu i fod yn offerynau gormes, a chofied Shon Chware Teg, nad yw hi mor gymylog yn Mhentyrch ac y myn ef iddi fod. Y mae Mr Booker yn rhoddi tai a than yn rhad, yn nghyda thal wythnosol i widowed a hen bobl, a'r shop yn rhydd i bobl sydd yn cael anhapion yn y gwaith, a meddyg i weini arnynt ar ei draul ei hun. Dywedaf nad oes nemawr o'i gystal yn Nghymru, os oes neb, a charwn yn fawr weled yr amser yn gwella ar bawb. Y mae yn flin genyf am ein masnachwyr caredig, ond nid wyf yn barnu eu bod ddim yn waeth ar y gweithiwr. Yr eiddoch yn gywir.

FORGEMAN

[Mai 4 1861] Pentyrch

Dyma i chwi ychydig o helyntion y Truck System sydd yn awr mewn cysylltiad a gwaith Pentyrch; ond rhaid i mi fod yn fyr ar y mater rhag i mi gael fy mwrdro gan Mr 'Forgeman'; yr wyf yn crynu oddiar pan ddarllenais y GWLADGARWR am y 16eg o Fawrth, wrth glywed y fath resymau diail y mae ef yn eu dwyn dros y gaethfasnach. Fe ddywed 'Forgeman' mai anwiredd ddywedodd y 'Dyddweithiwr', fod Truck System yn beth nas gall un dyn ddal y cysylltiad lleiaf a hi, heb aberthu pob egwyddor o cyfiawnder. Ond a ydyw y fath eiriau yn gywir, tybiaf fod ugeiniau tua Threfforest a Phentyrch a ddywed nac yw. Os caniateir, nodwn ychydig sylwadau ac enghreifftiau o ormes sydd yn nglyn a'r Company Shops. Yn y man cyntaf, y maent yn gormesu ac yn gorfodi y gweithwyr i brynu eu nwyfau, pa un bynag fyddant ai da ai drwg, neu yntau gael eu taflu allan o'r gwaith dan yr esgus o rywbeth arall. Yn nesaf, maent yn rhoddi rhyw ddeg ar hugain neu ddwy bunt o draw rhwng tri o ddynion, yn y pymthegnos, pan y mae pum punt neu ragor yn dod iddynt. Yn olaf, maent yn gorlenwi y gwaith a dynion dyeithr, fel nas gall yr hen weithwyr gael chwareu teg i enill yr hyn allent, ac o ganlyniad mae yr ychydig a enillant, y rhan fwyaf o hono, yn myned i'r shop, a pha mor llawn bynag y bo y gwaith, y maent oll yn gorfod cael ymborth, a hwnw o'r Company Shop. Ac y mae rhyw fan ostyngiadau wedi cymeryd lle o fewn y gwaith er pan mae y Truck System wedi cyfodi mewn cysylltiad a'r gwaith, heb gymaint a diwrnod o rybudd. Dyna i chwi yr hyn a eilw 'Forgeman' yn ddaioni i'r gweithwyr pan y mae masnach mor farwaidd. Terfynaf yn awr gyda rhoddi ychydig o gynghorion i 'Forgeman'. Na fydded i chwi warthruddo eich talentau ysplenydd i ganmol y Truck System felldigedig hon; mae yn well i chwi fod yn ddystaw o hyn allan o berthynas i'r strike; trwy y strike y cafwyd y *draw* arianol a ddywedasoch am dani, a charwn wybod genych os yw y shop o gymaint daioni ag a ddywedwch ei bod, paham y dywedwch fod yn gas gan Mr Booker fod ei enw wrth y Company Shop.

YSGIBELLWR

..................................

Bu rhagor o broblemau diwydiannol y flwyddyn honno. Ar Awst 9fed 1861 lleisiodd y *Cardiff Times* y farn mai 'In consequence of the recent reduction [gostyngwyd cyflogau'r gweithwyr gan 10%], shortness of work, and the pestiferous



'truck' system many families are already on the verge of starvation.' Erbyn diwedd Awst gorfu i'r dynion fynd ar streic, neu, a defnyddio ymadrodd y *Cardiff Times,* 'On Wednesday at 6 o'clock all the forge wheels ceased their velocity.' Ni pharhaodd y streic ond am wythnos; ailgydiodd y gweithwyr yn eu gwaith ond, y mae lle i ofni, ar delerau'r perchenogion yn bennaf.

Ond ni bu'r ddadl hon ond megis mân lwch wrth y drafodaeth a hawliai sylw'r trigolion yn ail hanner y flwyddyn. Craidd y ddadl newydd hon oedd gweithred honedig y ficer lleol yn mynnu mai dim ond y plant hynny a fynychai'r gwasanaeth boreol yn ei eglwys a gai dderbyn addysg yn ysgol y pentref a hyn ar adeg pan oedd anghydffurfiaeth ar ei chryfaf yn y pentref. Gallai ardal Pen-tyrch ymffrostio ei bod yn cynnal tri chapel anghydffurfiol llewyrchus yn y cyfnod hwnnw a chryn lewyrch ar eu cyfarfodydd. Yn 1862, er enghraifft, parhaodd cyfarfodydd blynyddol Bronllwyn Pen-tyrch (Annibynwyr) am ddeuddydd cyfan a bu wyth o bregethwyr gwâdd yn pregethu yno. (*Y Gwladgarwr*, Hydref 25, 1862). Yn ôl *Adroddiadau'r Comisiynwyr ... ar Addysg yng Nghymru ('Y Llyfrau Gleision')* yn 1847, rhyw 56 o blant a fynychai Ysgol Sul (Saesneg) yr Eglwys o'u cymharu â 325 yn ysgolion Sul (Cymraeg) y capeli. Gorfu i'r Ficer ei hun gyfaddef, wrth ateb Holiadur Gofwy'r Esgob yn 1848, mai 16 yn unig oedd wedi derbyn Cymun y Pasg yn Eglwys Pen-tyrch y flwyddyn honno – er bod hyn yn fwy nag yn rhai o'r plwyfi cyfagos megis Radur (7), Gwenfô (8) a Llanilltern (7).

Nid rhyfedd felly fod gweithred y ficer wedi esgor ar gryn ohebiaeth yn nhudalennau *Y Gwladgarwr* rhwng Awst a Thachwedd 1861 a'r cyhuddiadau a'r gwrthgyhuddiadau yn llifo'n gyflym ac yn gas. Cyfrannodd rhyw wyth o drigolion Pen-tyrch i'r drafodaeth yn *Y Gwladgarwr* ond yn anffodus (ond yn ddealladwy) dan ffugenwau yr ysgrifennai'r pentrefwyr wrth

leisio eu cwynion. Y ddau brif gymeriad (y cyhuddedig, os mynnwch) yn y ddrama fach hon oedd Horatio Thomas, Ficer Pen-tyrch a Charles Prichard, yr ysgolfeistr - y dychwelwn i'w trafod yn nes ymlaen.

[Awst 3, 1861] At drigolion Pentyrch

Trwy ganiatad Mr. Gol. y mae genyf air neu ddau a chwi, a hyny heb ddim rhagymadrodd, ond disgyn yn union ar y testyn, ys dywed y pregethwyr. Gwyddoch fod yn ein pentref ysgoldy wedi ei adeiladu er addysgu plant y gymydogaeth, a gwyddoch hefyd trwy brofiad chwerw, gynifer o honoch ag sydd yn ymneillduwyr, fod y Parch H.J.Thomas y Vicar yn troi ein plant allan o'r ysgol eisiau eu bod yn mynychu yr eglwys ar y Sabboth. Cafodd plant ag sydd yn aelodau yn mysg yr ymneillduwyr y drws yr wythnosau diweddaf hyn, a hyny am yr unig drosedd o beidio esgeuluso eu cydgynulliad eu hunain, a dywed yn benderfynol a chyhoeddus na fydd i un plentyn o hyn allan gael dyfod i'r ysgol ar unrhyw amodau heb ddyfod i'r eglwys ar y Sabboth. O ba le y cafodd yr awdurdod hyn? Ai oddiwrth cefnogwyr addysg yn yr ardal ? Dichon y gwna yr offeiriaid ein hysbysu trwy gyfrwng y GWLADGARWR, neu dichon y byddai yn well i ni apelio ar unwaith i lygad y ffynon. Mae o bwys i ni beidio cysgu, yn neillduol pan feddyliom ein bod yn agored i golli budd yr arian blynyddol yr arferid rhanu eu gywerth mewn dillad rhyngom.

Mae tua £150 o'r arian blynyddol hyn yn dwylaw Arglwydd Dinefor, ac y mae ei arglwyddiaeth wedi caniatau eu defnyddio er cael ysgoldy eangach a mwy cyfleus, ac i'r arian blynyddol wedi hyny gael eu cysegru at gynorthwyo trigolion y gymydogaeth i gael addysg i'w plant. Ai tybed fod ei arglwyddiaeth yn cyfranu ei arian er mwyn eglwyseiddio yr ardal ? Na, nis gall hyn fod.

Oni fyddai yn well i ni gael cyfarfod cyhoeddus er dwyn Penygarn i drefn, ac i benderfynu ar rhyw gynllun i weithredu yn ngwyneb y gorthrwm gwarthus hwn arnom.

Pa le mae y gweinidogion ymneillduol: gadewch i ni apelio at y Parchedigion Jones, Bethlehem: Davies, Bronllwyn: Jones, Penuel: a blaenoriaid Horeb, am eu cymhorth i weithredu. Y mae ardal ag oedd dan amgylchiadau cyffelyb i ni, wedi deisebu at Arglwydd Dinefor, ac y maent wedi llwyddo i gael rhyddid i'w plant i fwynhau breintiau yr ysgol, heb eu gorfodi i fyned i'r eglwys ar y Sabboth.



Beth pe anfonem ninau ddeiseb, wedi ei harwyddo gan gynifer ag sydd yn bosibl at ei arglwyddiaeth, ac un arall at T.W.Booker, Ysw.

Gadawaf rhwng y Parch. H.J.Thomas a'i ymddygiad, ond gellid meddwl na fydd ei ysbryd erlidgar a gorthrymus o fawr gymhorth iddo farw, nac o fawr gysur iddo yn y farn. Cyhoedder y cyfarfod yn yr holl gapelau, a'r eglwys hefyd, i fod nos Fawrth Awst 6ed. Y mae o bwys i ni wneud brys.

Yr eiddoch oll.
UN DAN EI FAICH

[Awst 24 1861] Gormes grefyddol Pentyrch

Mr Gol. Yr wyf wedi cael ar ddeall yn eich 'Gwladgarwr' y 3ydd o Awst fod gormeswyr egwyddorion rhyddid crefyddol yn ein gwlad y dyddiau presennol. Syn oedd gennyf fod offeiriad Pentyrch yn anfon plant allan o'r ysgol ddyddiol am na fyddent yn esgeuluso eu cyd-gynulliad ar y Sabboth a myned i'r eglwys i wrando ef. Bum fy hun yn ei wrando droion ys blynyddau yn ol, pan oedd ei feddwl yn fwy bywiog i chwilio am ddefnyddiau pregethau a'i awydd yn fwy brwd am fod yn bregethwr enwog a mawr ei ddylanwad nag y dichon iddynt fod yn bresennol, ond ni ellais erioed farnu y buasai iddo byth ddyfod y fath bregethwr ag a fuasai yn werth caethiwo neb i fyned i'w wrando.

Mae ei ymddygiad yn fwy gwrthun byth, pan y meddyliwyf ei fod wedi ei eni a'i fagu o fewn tair milldir i Bentyrch, fod trigolion Pentyrch yn gwybod am ei ddygiad i fyny, am ei ymddygiadau cyffredin ac am waelder ei bregethau &c ac er y cwbl yr oedd pawb yn talu parch iddo fel offeiriad y plwyf. Ond a all efe erfyn parch o hyn allan? Pa barch y gall gormeswr egwyddorion ei erfyn ? Pa barch a all gwrthwynebwr addysg rhydd ei erfyn? Darfu i rhyw un ddweyd celwydd ysgeler wrthyf tua chwe neu naw mis yn ol. Dywedodd fod y Parch H.J. Thomas o dan ddylanwadau gras y nef, fod ei ysbryd wedi ei ireiddio a'i nefoli, ei galon wedi ei thoddi a'i chyfnewid, ei egwyddorion yn hollol rhydd ac anmhleidgar, ei fod yn myned yn awr ac eilwaith i gapeli yr ymneillduwyr a bod hwythau yn myned yn rhifoedd lluosog i'r eglwys, a bod yr offeiriad yn gwlychu ei offerengrys a'i ddagrau, gan ddweyd 'Lle yr oeddwn gynt yn ddall yr wyf yn awr yn gweled. Bydded i'r Arglwydd ymweled a'r gymydogaeth drwy ei Ysbryd, a thynu pawb ato ei hun. Llanwer yr eglwys a'r capeli o ddychweledigion. Nid oes gwahaniaeth am y lle, cael dynion at Grist yw y prif bwys, ac ar ol

cael hyn, bydd iddo Ef 'lyncu enwau gwael y llawr holl yn ei enw ei hun,' &c yn gyffelyb.

Ond ni all y pethau hyn fod yn wir Mr Gol. Ai tybed fod dyn yn berchen synwyr cyffredin - wedi bod yn weinidog eglwys y plwyf dros bum mlynedd ar hugain neu hwy, yn llefaru y geiriau uchod, a chyn pen ychydig fisoedd yn troi fel ceiliog gwynt! Chwareu teg i'r offeiriad hefyd. Mae'n dda gennyf feddwl Mr Gol. eich bod chwi yn sicr o roddi chwareu teg iddo i lefaru dros ei ymddygiadau trwy gyfrwng y 'Gwladgarwr.' Cymry ydym ni - Cymro ydyw yntau hefyd: ac y mae eich Gwladgarwr yn caru Cymro, Cymru a Chymraeg, gan hyny, gwell settlo y gormes a'r anghydfod hwn trwy gyfrwng y Gwladgarwr, na chyhoeddi hyn yn Gath nac yn heolydd Askelon, nac ychwaith yn y newyddiaduron Seisneg, rhag cywilydd i'r Gomeriaid. Drwg fyddai hefyd genyf ddangos i ein grasusaf Frenhines fod un gweinidog o fewn i'w theyrnas yn meddu ysbryd mor groes i egwyddorion llywodraeth ei Mawrhydi. ...

Os na fydd i'r offeiriad adael llonydd i'r plant, rhaid i bobl Pentyrch ddeisebu y mawrion sydd yn cyfranu tuag addysg yn y plwyf, am gael rhyddid oddiwrth fath ormes an-Frytanaidd. Yr wyf yn deall fod Arglwydd Dinefwr wedi caniatau talu y 15 punt yn y flwyddyn a arferid eu rhanu yn wlenyn i'r tylodion, at yr ysgol, a bod y swm ag sydd yn sefyll yn llaw ei Arglwyddiaeth i'w defnyddio er helaethu yr ysgoldy. Pethau da iawn ond cael rhyddid i gyfranogi o honynt heb wg na chosp offeiriadol.

Bydded i rai o ddarllenwyr y GWLADGARWR i gynorthwyo pobl Pentyrch, trwy anfon ffurf o ddeiseb i'r GWLADGARWR nesaf. Minau a geisiaf fy ngoreu i gyfansoddi ffurf, a chwi a gewch Mr. Gol. argraffu yr un a farnoch yn oraf.

Yr eiddoch yn serchus,

HEN GYFAILL

[Medi 7 1861] At olygwr y Gwladgarwr

Syr, Galwai un o ohebwyr y GWLADGARWR yn ddiweddar sylw at y priodoldeb o anfon deiseb at y boneddigion sydd wedi bod yn sylfaenwyr a chefnogwyr yr Ysgol o dan olygiaeth bresenol Vicar Pentyrch. Gan fod eich gohebwr yn erfyn am gael ffurf o ddeiseb i'r GWLADGARWR i'r perwyl hyny, a welwch chwi yn dda adael i'r ffurf ganlynol gael ymddangos yn eich papyr, oddigerth i ryw ohebydd arall fod wedi anfon ei gwell.



To the right Hon. Lord Dynevor

The humble Petition of the Inhabitants of the Parish of Pentyrch, in the County of Glamorgan

Sheweth - That the Reverend H.J.Thomas, Vicar of Pentyrch, exercises an absolute authority over the School in the said parish, and molests your petitioners and tenants by sending their children from school for not attending his church on Sundays, and publicly declaring that no child shall come within the schoolroom door except those who attend the church.

That the children of those who wish to worship Him. 'whose service is perfect freedom' in any place except the church, are now excluded from the school and consequently from the benefit of you Lordship's annual subscription to the school; and also from the charity which your Lordship has been pleased to grant to be paid, in future, to the school but which was heretofore distributed in flannel amongst the poor.

That the great mass of the population of the said parish are Protestant Dissenters, and are unanimous in desiring that the instruction of their children in the day-school should be unsectarian; and that your petitioners believe no general plan would be accepted among them which did not abjure all kinds of denominational tests, and therby do full justice to the principles of religious equality and liberty.

That the compelling of children on Sundays to attend any particular religious service against the wishes of their parents works a particular grievance by excluding one portion of the children of Nonconformists, and by violating the consciences of the parents of the remainder.

That this impediment to the education of their children has moved your petitioners to urge on your Lordship the necesity of an immediate modification in the management of the school; and that your petitioners most humbly beg to suggest that the School Committee should be composed of one or more persons from each religious denomination in the parish in addition to those already appointed; and that those hereafter appointed should be possessed of a certain amount of learning, because the duties of the School Committee are rendered peculiarly arduous by reason of much past neglect, entailing a necessity for great present labour, which cannot be delayed without multiplying existing evils.

That your petitioners humbly solicit your Lordship's aid to obtain freedom for those who do not feel inclined to attend the church to be admitted into the school unmolested and receive the benefit of the charity and subscriptions paid towards the school, as well as those who are inclined to attend the church.

And your petitioners, as in duty bound, shall ever pray.

Ymroddwch ati bellach, heb oedi dim; mae ein amcan yn dda, a'n llwyddiant yn obeithiol.

CYFAILL

[Medi 21 1861] Gormes yn Pentyrch

Mr. Gol. Gwelwch yn dda ganiatau i minau draethu fy llen ar y pwnc uchod at yr hyn sydd wedi ymddangos yn barod. Peth cyffredin yn mhlith offeiriaid yn awr yw ceisio gosod rheidrwydd ar blant yr ysgolion Cenedlaethol i roddi eu presenoldeb yn yr eglwys ar y Sabboth, ond y maent yn methu cael hyny i weithrediad yn ein prif drefi, a'u gweithfeydd; ac y mae yn hynod i mi fod offeiriad Pentyrch, na neb o'i gyfarwyddwyr, wedi breuddwydio y gallasent gario hyny yn mlaen yn llwyddianus yma, lle y mae cynifer yn deall eu hawliau, ac yn gweithredu yn eu hol. Gallasem ni feddwl ei bod yn bryd bellach i ysbryd gormes lwyr adael ein tir, a'i gladdu ym medd ebargofrwydd; ond nid felly y mae; y mae yr hen ellyll ofnadwy fu yn lladd ac yn llosgi ein tadau yn yr oesau tywyll yn parhau yn fyw, ac yn dangos ei ewin fforchog ar adegau yn yr oes oleu hon, ac yn ddiweddar oll yn mhersonau offeiriad ac ysgolfeistr Pentyrch.

Mae nodwedd yr offeiriad wedi ei ddadlenu yn barod ar faes y 'Gwladgarwr' i raddau helaeth gan yr Hen Gyfaill, ac mi obeithiaf fod yr ysgrif hono wedi cael argraff er daioni ar ei feddwl, ac y bydd yn edifar ganddo am yr hyn a wnaeth. Ond y mae cymeriad arall mewn cyswllt a'r ymdrafodaeth hon sydd yn teilyngu cymaint o sylw a'r offeiriad os nad mwy - yr ydym yn cyfeirio at yr ysgolfeistr. Braidd y gallwn gredu taw rhyddfrydwr Bwrdd Tylodion Caerdydd ydyw gormeswr Pentyrch, mai elusenwr cydymdeimlol Eisteddfod ddiweddar Aberdar ydyw erlidiwr dideimlad Pentyrch. Dichon y gall fod felly er hyny, canys cyfnewidiol iawn yw dyn. Ond am yr ysgolfeistr, nid ydym yn rhyfeddu cymaint, canys gwyddom beth ydyw, yr ydym yn ei adnabod bellach, a gwyddom beth ydynt ei egwyddorion llywodraethol; mai gormes eglwysyddol yw ei *hobi*, ac nad oes dim yn fwy anwyl gan ei galon nac erlid ymneillduaeth. Gwyddom ei fod yn ceisio nodded yr offeiriad i gau plant ymneillduwyr o'r ysgol, am nad oeddynt yn myned i'r eglwys ar y Sabboth, ac y mae wedi anfon eraill o'r ysgol heb awdurdod yr offeiriad, ac yn gorfod myned dan ddysgyblaeth am hyny, am fod y cyfryw yn gyfeillion gan yr offeiriad. Nid peth wedi dygwydd yn ddiweddar ydyw cau plant ymneillduwyr allan o ysgol Pentyrch am na fyddent yn myned i'r eglwys ar y Sul, ond hen arferiad ydyw. Gwyddom am rieni wedi peidio anfon eu plant iddi os amser, am fod hyn yn ormod o aberth ar eu cydwybodau.

Ond i ni edrych i ansawdd sefydliad yr ysgol hon, cawn mai eiddo y lle ydyw, ac nid eiddo yr eglwys na'r offeiriad. Mae Arglwydd Dinefwr yn tanysgrifio £10 yn flynyddol ati, ac y mae £15 yn cael eu rhoddi ganddo yn flynyddol at ddillad i'r tylodion, i gael eu defnyddio ati hefyd, o hyn allan.



Mae Mri Booker yn rhoddi £10 ac y mae £18 yn dyfod oddiwrth y plwyf. Gwna hyn y swm o £53. Y mae eraill yn tanysgrifio symiau llai ac y mae'r plant i dalu'n wythnosol yn gyfatebol i'w rhif a'u hoedran, fel y mae cyflog flynyddol yn agos i £100. Gan mai y cyhoedd sydd yn cynal yr ysgol, eiddo y cyhoedd ydyw. Mae yr ysgol wedi ei gosod ar y safon hon ers rhyw 5 mlynedd, eto nid oes dim o'i effaith i'w weled ar y gymydogaeth. Yn ngwyneb fod y fath arian yn cael eu talu, disgwyliem weled eu gwerth yn cael eu dwyn allan mewn ysgolheigion da; ond dim o'r fath, nid oes cymaint ag un sydd wedi dyfod allan yn gymwys i gymeryd unrhyw swydd o ymddiried, ac y mae'n well gan lawer yn yr ardal gadw eu plant gartref na'u danfon iddi gan nad ydynt yn dysgu dim. Wel paham mae yr ysgol mor aneffeithiol? Wel dyma yr unig barn, am nad yw yr ysgolfeistr yn ddigon ymdrechgar, ac o bosibl yn ddigon galluog chwaith. Gwell ganddo ef fyned o dy i dy i erlid gwrachaidd chwedlau na gofalu am yr ysgol. Gwell ganddo ofalu am awrleisiau yr ardal na gofalu am y plant y mae yn cael ei dalu yn dda am eu dysgu. Gwell ganddo osod y plant, a gwneud iddynt dalu am gario glo at ei dy ef, ac at yr ysgoldy, na'u dysgu mewn pethau angenrheidiol. Credwn fod Mri. Booker's o deimladau rhy garedig i oddef hyn pe baent yn gwybod, ac nad oeddent yn meddwl am i'r plant gario, na thalu am gario y glo sydd yn cael ei roddi iddo yn rhad. Dyna rai o ystranciau y dyn hwn mewn cyswllt â'r ysgol, heblaw y trosedd sydd wedi achosi y cyffroad presennol. ...

Nid gwiw gosod y bai yn gwbl wrth ddrws yr offeiriad, ond gan ei fod ef yn cymeryd arno fod yn arolygu yr ysgol, dylai fod ganddo fwy o awdurdod ar yr ysgolfeistr, os nad yw yn unol a'i ewyllys i'r fath chwareu gael ei gario yn mlaen ganddo. Ond y casgliad goreu allwn dynu oddiwrth hyn yw, fod y ddau yn cydweithredu, ac mai yr amcan mawr mewn golwg ydyw lladd dylanwad ymneillduaeth yn y lle, a chael y plant i'r eglwys, pan y mae y bobl yn cilio rhag gwrando ar bregethu dienaid yr offeiriad. Nid wyf fi yn gallu deall paham y mae llywodraethiad yr ysgolion Cenedlaethol yn llaw offeiriaid Eglwys Loegr. Os mai cenedlaethol ydyw yr ysgolion, ni pherthyn eu llywodraethiad yn fwy i'r Eglwys nac i'r Ymneillduwyr; ond os i'r gwrthwyneb, nid cenedlaethol ond eglwysyddol ydynt. ... Ymneillduwyr Pentyrch, dewch allan fel un gwr yn yr achos presenol. Pa le mae eich gweinidogion ? Ai tybed nad yw y pwnc hwn yn dal perthynas a hwy? Cyn wired a bod y rhan luosocaf o'r dosbarth yma yn ddifater am addysg y werin, fe fydd dylanwad ymneillduaeth wedi ei golli cyn pen ugain mlynedd. Chwi weinidogion Pentyrch, ymddyhunwch o'ch cysgadrwydd, rhag ofn bydd yr oes a ddaw yn teimlo oddiwrth ein hymddygiadau difater chwi. ... Ein dadl fyddo rhyddid cydwybod i ni, ac i'n plant; ac nid hyny yn unig, ond

deuwch i ni fynu cael ysgolfeistr y bydd ol ei lafur i'w weled ar y plant fyddo dan ei ofal, ac y bydd i'r arian sydd yn cael ei gwario yn bresenol am ddim, ateb diben i'r gymydogaeth.

Yr eiddoch, gymydogion,

GWYLIEDYDD

[Gwelsom Mr Thomas, offeiriad Pentyrch, yn Eisteddfod Aberdar, ac nid oedd neb o'r miloedd a ddaethant i'r lle yn ymddangos yn fwy rhyddfrydig, diragfarn, a gwladgar nag efe. A yw yn bosibl fod yr holl gyhuddiadau a ddygir yn ei erbyn gyda golwg ar yr ysgol yn wir? A yw oes gormes ddim bron ar ben? A yw yn bosibl i foneddwr fel Mr Thomas fynu dwrdio a threisio cydwybodau gweithwyr tylodion, pan yn ceisio addysgu eu plant o dan lawer o anfanteision? - GOL. ]

[Hydref 26 1861] Pentyrch

Mr Gol. Nis gwyddwn ychydig wythnosau yn ol am fodolaeth eich newyddiadur y GWLADGARWR; ond nid yw y cymeriad a esyd y gair *gwladgarwr* allan yn ddyeithr i mi er fy mabandod. Gan mai hon yw y waith gyntaf erioed i mi ysgrifenu i'r 'Gwladgarwr,' neu unrhyw gyhoeddiad wythnosol arall, gobeithiaf y bydd i chwi, Syr, faddeu fy anhrefn, fy afreoleiddiwch, a'm gwaeledd. Ni fuaswn yn ysgrifenu yn awr ychwaith, oni buasai fod rhyw un a eilw ei hun Gwiliedydd [sic] wedi halogi tudalen o'r 'Gwladgarwr' am yr 21ain o Fedi a chelwyddau mewn perthynas a mi.

Dichon hefyd fod rhai o'm cyfeillion mewn gwahanol fanau o'r wlad yn teimlo am fy mod yn ei chael mor drwsgl, gan hyny yr wyf yn ysgrifenu fel y deallont fod 'Gwiliedydd' yn un o'r 'rhai sydd a'u ffyrdd yn geimion, ac a ymlawenychant i wneuthur drwg.' Mae y fath ddynion a Gwiliedydd i'w cael yma a thraw, yn gwybod (dychymygu felly) helyntion pawb, ac eto yn eithaf anniben eu hunain gartref. 'Eu calon a fyfyria anrhaith, a'u gwefusau a draetha flinder.' Mae pawb yn Pentyrch yn dystion o anwireddau y Gwiliedydd; ac nid wyf yn meddwl fod nemawr yn yr ardaloedd o amgylch o gylch yn ei gredu; ond dichon fod rhai yn ei gredu oblegyd 'Y drygionus a wrendy ar wefus anwir; a'r celwyddog a rydd glust i dafod drwg.'

Rhaid i mi yn awr gyfarch Gwiliedydd. Gwrando fy ngwas i, y mae dy leferydd yn dy gyhuddo mai nid dyma y tro cyntaf i ti arllwys dy gronfa



enllibus, 'Llawer gwaith y gŵyr dy galon darfod i ti dy hun felldithio eraill.' Ac yn wir, 'Gwefusau y ffol a ant i mewn i gynen, a'i enau a eilw am ddyrnodiau.' Ond er fod dy enau yn galw am ddyrnodiau, nid wyf yn bwriadu dy bwyo y tro hwn am mai ffol ydwyt, oblegyd y mae Solomon yn dweyd 'Er i ti bwyo ffol mewn morter a phistl mewn gwenith, eto nid ymedy ei ffolineb ag ef.' Ond gan mai ysgolfeistr ydwyf, gad i mi roddi gwers i ti. Paid a gwylied na meddwl am faterion eraill tra y byddaf yn rhoddi gwers i ti. Rhaid i ti osod dy feddwl ar y wers cyn y gelli ddysgu. Gan hyny, 'Gwrando gyngor, a chymer addysg, fel y byddech ddoeth yn dy ddiwedd.' Un twp iawn wyt ti yn wir; mae effaith dy ddygiad i fyny wedi argraffu mor ddwfn yn dy ddullwedd, dy ysgogiadau, dy ymarweddiad, a'th lafar, fel yr wyf yn gweled y caf lawer o drafferth i'th gael i ymddwyn rhyw beth yn debyg i fod rhesymol. A weli di y wers isod, yr A B C, &c. Mae dy fysedd bawlyd wedi halogi y llythyrenau, a byddaf yn rhwym o'th geryddu os na fydd i ti gadw dy lyfr yn lanach. Edrych ar ôl dy fysedd halogedig ar y llaw ddehau i'r llythyrenau.

A. 'Ond am yr ysgolfeistr, gwyddom beth ydynt ei egwyddorion llywodraethol; mai gormes eglwysyddol yw ei holl *hobi*.'
B. 'Nad oes dim yn fwy anwyl gan ei galon nac erlid ymneillduaeth.'
C. 'Gwyddom ei fod yn ceisio nodded yr offeiriad i gau plant ymneillduwyr o'r ysgol, am nad oeddynt yn myned i'r eglwys ar y Sabboth, ac y mae wedi anfon eraill o'r ysgol heb awdurdod yr offeiriad, ac yn gorfod mynd dan ddysgyblaeth am hyny, am fod y cyfryw yn gyfeillion gan yr offeiriad.
CH. 'Mae cyflog flynyddol yr ysgolfeistr yn agos i £100.'
D. 'Nid oes dim o effaith yr ysgol i'w weled ar y gymydogaeth; nid oes cymaint ag un ysgolhaig wedi dyfod allan yn gymwys i gymeryd unrhyw swydd o ymddiried; ac y mae yn well gan lawer yn yr ardal gadw eu plant gartref na'u hanfon idd, gan nad ydynt yn dysgu dim.'
DD. 'Y farn am aneffeithioldeb yr ysgol yw nad yw yr ysgolfeistr yn ddigon ymdrechgar, ac o bosibl yn ddigon galluog chwaith.'
E. 'Gwell ganddo fyned o dy i dy i erlid gwrachiaidd chwedlau na gofalu am yr ysgol.'
F. 'Gwell ganddo ofalu am awrleisiau yr ardal na gofalu am y plant.'
FF. 'Gwell ganddo osod y plant i gario, a gwneud iddynt dalu am gario glo at ei dy ef, ac at yr ysgoldy, na'u dysgu mewn pethau angenrheidiol.'
G. 'Ffeithiau ydyw y pethau uchod, ac y mae digon a dystia hyny dan eu henwau priodol os bydd galw am hyny.'
Yn awr Gwiliedydd, rhaid i ti fyned dros yr egwyddor (alphabet) eto, a dysgu y llythyrenau mân, a,b,c, &c.

a. 'Gormes eglwysyddol yw ei hobi' Gwrando Gwiliedydd. Mae yn deg iawn i bob dyn gael addoli Duw fel y myno, pryd y myno, a'r lle y myno. Os bydd un yn dewis ymuno a'r Annibynwyr, ac arall ymuno a'r Bedyddwyr, neu a'r Methodistiaid, ffoledd yw dweyd mai Annibyniaeth yw *hobby* y naill ac mai Bedydd neu Drefniadaeth yw *hobby* y llall. Ac os bydd y nesaf yn Eglwyswr, delff [ynfytyn] yw yr hwn a feddwl mai Eglwysyddiaeth yw ei *hobby* am ei fod yn dewis addoli yn yr Eglwys. Er fy mod i yn athraw, a thithau yn awr ond disgybl, rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn deall beth yw y term 'gormes eglwysyddol' a ddefnyddiaist. Ond gan nad ydwyt eisioes wedi cyrhaedd digon o wybodaeth i gymysgu a chysodi geiriau, esgusodaf dy synwyr-bwledd.

b. 'Nad oes dim yn fwy anwyl gan ei galon nac erlid ymneillduaeth' Yn wir y mae un peth yn fwy anwyl genyf: hyny yw, llwyddiant pawb a fyddo yn cymeryd arnynt enw Crist, yn eglwyswyr ac ymneillduwyr. Fy ngweddi yw am i'r Arglwydd gyflawnu ei addewid - bod yn y canol lle bynag y byddo ond dau neu dri wedi ymgynull yn ei enw Ef. A rhaid i ti feddwl fy mod yn anngall iawn i erlid ymneillduwyr os mai eglwysyddiaeth yw fy hobi; oblegyd y llwybr mwyaf anhebyg i unrhyw enwad lwyddo, yw erlid enwadau eraill. Yr wyf, pan yn sefyll wrth fy nhy, yn medru clywed swn pregethu, gweddio, a chanu o'r eglwys ac o gapeli y Bedyddwyr, Y Methodistiaid, a'r Annibynwyr, ac y mae yn hyfryd iawn genyf eu clywed: ac yr wyf yn ystyried fy hun yn ddedwydd iawn, am fy mod yn byw mewn ardal ag y mae sain can a moliant yn llanw yr holl gymydogaeth. Mae yn llawenydd mawr genyf nad wyf yn euog o'r trosedd pwysig o erlid pobl yr Arglwydd, oblegyd byddai hyny yn arwydd anffaeledig na fyddwn yn un o honynt, Ioan xv, 19. Gwell fyddai genyf fod yn euog o'th holl gyhuddiadau eraill na bod yn euog o'r cyhuddiad hwn; 'Oblegyd pwy bynag a rwystro un o'r rhai bychain hyn a gredant ynof fi, da fyddai iddo pe crogid maen melin am ei wddf, a'i foddi yn eigion y môr.' Cymer dithau ofal, Gwiliedydd, rhag i ti rhwystro neb.

c. 'Gwyddom ei fod yn ceisio nodded' &c. Mawr wyddost ti Gwiliedydd! Ond gwybydd y gwir o hyn allan. Ni ddarfu i mi erioed gan, na cheisio nodded i gau plentyn un ymneullduwr allan o'r ysgol am beidio myned i'r eglwys ar y Sabboth; nac ychwaith gorfod myned dan ddysgyblaeth am gau eraill allan heb awdurdod. Ac ni welais y Parch. Mr Thomas erioed yn cydnabod unrhyw blant yn fwy o'i gyfeillion na'u gilydd mewn perthynas a'r ysgol, ond bob amser yn eu hystyried oll yn gydradd pan o fewn muriau yr ysgoldy.

ch. 'Mae cyflog yr ysgolfeistr yn agos i £100.' Dyma'r fan yr wyt yn ymddangos yn fwyaf eglur yn dy nodweddiad dy hun. Byddit wrth dy fodd pe gwyddit beth yw cyflogau pawb. Yr wyf, fel y mae fwyaf anffodus, yn adnabod rhai o'th frodyr o'r un awydd a thydi i'r dim. Ond gan dy fod ti yn awr yn cael gwers, gobeithiaf y bydd i mi ar fyr gael yr hyfrydwch o'th symud i dosbarth yn uwch, fel na byddost yn mhlith y cyfryw wael ymofynwyr. Wrth gyfrif £18 oddiwrth y plwyf at yr ysgol, yr wyt yn fy ngosod i wneud y swydd o 'assistant overseer' am ddim i blwyf ag sydd dros ddwy fil o drigolion; ac ar ol i ti ddeall a gwybod yn brofiadol beth yw trafferthu dyfod i mewn i wybodaethau ni fyddi yn foddlon i gyfrif at yr ysgol y cwbl o'r tal ac yr wyf yn ei dderbyn am wneud a chadw cyfrifon y plwyf. Yr wyt yn cyfrif hefyd £15 yn flynyddol na dderbyniais erioed: a dichon y bydd iddynt gael eu defnyddio am flynyddau tuag at y draul o helaethu yr ysgoldy. Yr wyt hefyd wedi cyfrif llawer gormod oddi wrth daliadau y plant. Wel, mi wn dy fod yn awr yn teimlo rhyw ysfa am glywed beth yw fy ngyflog i'r dim. Ar ol i ti ddysgu ychydig fel y gelli ddeall y gwahaniaeth rhwng y rhifnod saith a bach cneua, dere i'r ysgol a thi gai weled y 'Class Register of attendance, absence, and payments' perthynol i'r ysgol, a chai weled cyfrif am bob ceiniog ag sydd wedi ei dderbyn trwy'r blynyddau. Barnwyf fod yna yn ddigon ar y llythyren *ch,* er fe ddichon nad wyt ti wedi cael dy foddloni.



d. 'Nid oes dim o effaith yr ysgol i'w weled' &c, &c. Wel, wel, dyna gyhuddiadau haerllug, bradwriaethus, cableddus, a chelwyddog. Ond gan fod trigolion y cymydogaethau yn gwybod gwell, nid oes angen i mi siarad ar y pen hwn. Ond gwrando Gwiliedydd, cymer ofal rhag i ti y tro nesaf wylied rhyw un o dymer wyllt, ac iddo ddryllio dy gnawd yn fân dameidiau er gwneud 'tangible arithmetic' a 'geometry' o hono, a thaflu dy esgyrn a'th garpiau at wasanaeth y 'rags and bones.'

dd. 'Nid yw yr ysgolfeistr yn ddigon ymdrechgar, ac o bosibl yn ddigon galluog' Ar ol i ti adael gwylied achosion ereill, a dysgu yn ddiwyd a chaled am beth blynyddau, fe fydd i ti gael dy argyhoeddi o'r farn ag yr wyt yn bresenol yn ei chofleidio mewn perthynas a mi. Ond rhag i ti ddeyd wrthyf 'Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hyn.' Gadawaf y cydsain dd i gael ei esbonio gan ereill.

e. 'Gwell ganddo ef fyned o dy i dy' &c. Efallai dy fod yn meddwl fy mod o'r un chwaeth a thi, ac yn ymhyfrydu mewn pethau mor wael ac a'th foddlona di; cofia gynghor Solomon, 'Cadw dy droed allan o dŷ dy gymydog, rhag iddo flino arnat a'th gashau.' Gan fod holl drigolion Pentyrch yn gwybod mai dy anwiredd yw y cyhuddiad hwn, dere yn y blaen at y llythyren nesaf, i gael gweled pa fodd y mae yr awrleisiau yn myned.

f. 'Gwell ganddo ofalu am awrleisiau yr ardal,' &c. Yr wyf wedi glanhau canoedd o awrleisiau o bryd i bryd: a gallaf enwi llawer hen wr ac hen wraig

dlawd y glanheais eu hawrleisiau yn rhad, a hyny wrth oleu canwyll.. Nid wyf wedi glanhau ond ychydig iawn er ys 6 mlynedd. Yr wyf wedi rhoddi yr offerynau *(tools)* i arall ar yr amod fy mod i'w cael i lanhau awrlais Penuel (B.) ac awrlais Bronllwyn, (A), pan y byddo angen; ac yr wyf yn eu glanhau yn rhad. Ac mi a lanhaf awrleisiau holl gapeli y plwyf yn rhad os ewyllysiant. Edrych ar y llythyren B fachgen. Ac os oes arnat ti chwant dysgu glanhau awrleisiau, mi roddaf wers yn rhad i ti i'r perwyl.

ff: 'Gwell ganddo osod y plant i gario, a thalu am gario glo.' &c. Nid wyt yn gwella dim: rhaid i mi achwyn arnat, a dweyd wrth ereill mai dy anwiredd noeth yw y cyhuddiad hwn eto. Ni chariodd un plentyn erioed lonaid llwy o lo i mi; yr wyf yn talu 6s a 6c am lanw a chario pob llwyth o lo, ac yn ei ddifa mewn amser byr iawn yn y gauaf. Mae yr haelionus Feistri Booker yn rhoddi y glo i mi yn rhad; ac yr wyf yn teimlo fod y diolchgarwch gwresocaf yn deilwng iddynt oddi wrthyf fi, ac oddiwrth yr ysgolheigion a'u rhieni. Cynygiwyd i mi wrth sefydlu yr ysgol fod i bob plentyn dalu dimai yr wythnos at gario y glo, yr hyn a fuasai yn 1s a 4c yn y flwyddyn, gan fod genym dân yn yr ysgoldy am wyth mis o'r tri ar ddeg (*Lunar months*), minau a geisiais am osod ond 6c yr un, ac i'w talu dechrau y gauaf, yn lle trafferthu gyd y dimeiau dros wyth mis o'r flwyddyn, a chaniatawyd fy ngais gan ei fod yn ysgafnhau tal y plant. Y gwir yw nid wyf wedi derbyn fawr sylltau mewn un flwyddyn o'r arian hyn. Ond cenfigen, digasedd, bwriad drwg, ac erledigaeth sydd yn ngalon Gwiliedydd, ac -

Erlid wna yr erlidiwr - tra byddo
Byw, y cas athrodwr;
Aflonydda'r aflan wr
Ardaloedd, - ha!'r deolwr.

Anhydrin ac annedwydd, - a llwfr yw
Yr enllibwr beunydd:
Ei anwir, sâl draethiad sydd
G'wilyddus i Gwiliedydd.

Diail yw y diawl wyliedydd - hwn
I anwn â rhyw ddydd;
Cablu wnaeth y cabidraethydd,
Damnia'n rhad, - dyna ddyn rhydd!!

Gadawaf di gyda'r wers hon yn awr, gan dy gynghori i 'gadw dy dafod rhag drwg, a'th wefusau rhag traethu twyll.' Na fydd dyst heb achos yn erbyn



dy gymydog:ac na huda a'th wefusau.' 'Ac od oes genyt genfigen chwerw ac ymryson yn dy galon, na fydd ffrostwr a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd.' Iago iii, 14. A chyn y cwrddwn eto, gobeithiaf y byddi wedi dysgu cyn belled a'r nawfed gorchymyn.

CHARLES PRITCHARD [sic], Ysgolfeistr.

[Tachwedd 16 1861] Pentyrch unwaith eto

Mr. Gol., - Caniatewch i mi wneud rhai nodiadau ar 'epistol cyffredinol' Ysgolfeistr Pentyrch yn y 'Gwladgarwr' am Hydref y 26ain. Dengys yr epistol maith a gwasgaredig hwn, ei fod wedi teimlo i ddyfnderoedd iselaf ei galon; mae hyn yn dangos fod fy ysgrif i wedi bod yn foddion i gyraedd ei hamcan mewn un peth beth bynag, sef dwyn yr euog i deimlo; ond drwg genyf weled nad yw y teimlad hwnw wedi ei dywys i'r ffordd uniawn, amgen ni fuasai yr ewin fforchog i'w weled mor amlwg. Os na fu yr ysgrif ar 'Ormes yn Mhentyrch' yn foddion i gyrhaedd yr amcan mewn golwg, da genym iddi fod yn foddion i ddwyn rhai i deimlo dan ei wirionedd; ac ni a obeithiwn yn y pen draw i adael eu ffordd lygredig, a dyfod i'r iawn.

Un hallt iawn yw gwirionedd wedi bod drwy bob oes a gwlad; ac un hallt iawn yw yn yr amgylchiad presenol ar deimladau Ysgolfeistr Pentyrch, amgen ni fuasai ei wingiadau mor ofnadwy. Brwydr galed galed iawn yw brwydr gwirionedd yn erbyn trais a gormes. Cawsom weled enghraifft o hyny yn achos Itali yn bresenol. Yr un egwyddorion sydd mewn ymryson yn y lle hwn yn bresenol ar raddfa lai. Ond mae yn dda genym grybwyll un ffaith a grybwyllasom o'r blaen sef, 'na lwyddodd un arf eto a luniwyd yn erbyn y gwirionedd,' ac ni lwydda yn Mhentyrch chwaith. Er fod yr Ysgolfeistr wedi cymysgu cyfferi peryglus iawn i mi. Galwodd yn nghyd holl allu ei feddwl mawr dwfn-dreiddiol er cael gafael ar ddrychfeddyliau synwyrol mawrion, nes oeddent fel demoniaid pen-tywysog llywodraeth yr awyr o'i gylch; cymysgodd y cwbl yn mhair mawr ei ddigofaint, berwodd hwy ar dân ei lidiawgrwydd, halltodd y cwbl a melltdithion, a chiniogodd y cwbl yn arlwy hael i mi ar fwrdd y GWLADGARWR i giniaw y Sadwrn diwethaf. Ond ha! ni fynaswn mo honynt, adnabum hwy wrth eu harogl.

Mae un peth yn ffaith sydd yn amlwg i chwi a minau, sef, fod yr ysgol yn colli ei dylanwad yn hollol yn y gymydogaeth. Os ydych chwi mor lan o bob beiau ag y ceisiwch ein perswadio ni i gredu eich bod, paham na allech gael ychwaneg nag sydd genych i'r ysgol ? Nid *score* o blant sydd a all

fyned i ysgol yn y lle ac nid hyny a ai chwaith pe byddai ysgol gymwys i'w derbyn. A phaham, meddwch chwi, mae Mr Thomas yr offeiriad wedi cymeryd ei fachgenyn o'ch hysgol chwi a'i osod mewn ysgol ymneillduol?

Rhaid i ni gael pethau i fwy o sylw yn gyntaf; ond er mwyn dangos i chwi nad oes arnom ofn gwneud hyny, rhoddwn gymaint o chwareu teg i chwi i ddwyn eich pwnc allan, sef cael cyfarfod cyhoeddus i ddadleu amgylchiadau yr ysgol, ac yr ydym ni yn barod i gyfarfod â chwi felly. Byddwn yno yn arddel ein henwau yn ein personau ein hunain. Gellwch chwi os ewyllyswch fod yn y cyfarfod, a dwyn yn mlaen welliant ar bob un o'r penderfyniadau ac yr wyf yn barod i sefyll neu syrthio yn ngwyneb yr ymchwiliad. Ac os ydwyf yn gamsyniol mewn rhai neu yr oll o'r crybwylliadau, nid oes neb yn fwy parod na mi i gydnabod y peth, a gwneud ymddiheuriad o hyny. Mae hyn yn gynllun eithaf teg i'r naill blaid fel y llall, fel y gallom gael gorphen rhyfelawd papyr. Fy amcan o'r dechreu ydyw cael diwygiad yn yr ysgol - ei chael yn deilwch o'r gymydogaeth ac o'r oes hon. Yr ydych yn fy nghondemnio i am 'ymyryd heb achos yn materion rhai ereill.' Yr wyf inau yn dadleu fod genyf hawl i hyny ar y tir taw sefydliad cyhoeddus yw yr ysgol, a chwithau yn was i'r cyhoedd; felly yr oedd genyf inau hawl fel un o'r cyhoedd i ymyryd a'r achos, ac y mae hawl yn llaw pawb o'r gymydogaeth i wneud yr un peth.

Os ydych yn teimlo eich rhwymau, chwi a ddeuwch allan fel un gwr i gynal y cyfarfod cynygiedig ac os na ddeuwch allan, byddwch yn fradwyr o egwyddorion puraf ymneillduaeth. Mae yn ddrwg genym fod rhai yn methu bod yn unol eu barn yn yr achos yma. Hefyd carem yn fawr weled Mr Thomas yn cymeryd rhan fwy cyhoeddus yn yr achos. Cofiwch frawd eich bod chwi wedi enill cymeriad euraidd yn y gymydogaeth ar gyfrif eich parodrwydd a'ch haelionusrwydd. Deuwch allan yn nawr i amddiffyn y gwelliantau cynygiedig yn yr ysgol, er enill yn ol eich cymeriad anrhydeddus a gollasoch i raddau trwy eich byrbwylldra yn ddiweddar yn yr ysgol.

Nid wyf yn gofalu farw am yr enwau a osodasoch chwi (ysgolfeistr) arnaf. Yr wyf yn eich hesgusodi yn rhwydd, 'Canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.' Ac er eich bod chwi wedi penderfynu fy nhynged, sef,

'I anwn â rhyw ddydd,'

Gadawaf i ddarllenwyr y GWLADGARWR farnu pa un o honom sydd yn meddu nodweddion y rhai sydd yn myned tuag yno, ac yr wyf, trwy drugaredd, wedi yfed i raddau gormodol o ysbryd yr hwn 'pan ddifenwyd, na ddifenwodd drachefn,' i wneud hyny fy hunan. Ymberffeithiwch yn eich hysbryd frawd anwyl; ceisiwch ryw Ddafydd i chwareu y delyn i ymlyd



ymaith yr ysbryd drwg o honoch ... Cofiwch hefyd o hyn allan, pan yn goganu arall, fod yn rhaid cael genau glan at hyny. Cofiwch hefyd pan yn taflu cerig at eich cymydogion, eich bod yn byw mewn ty gwydr eich hunan. Cofiwch hefyd fod Duw yn y nef a farna, ac a ddwg bob pechod a gweithred ddrwg i gosp, ac yn gwybod meddyliau dirgeledig y galon. Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn meddu ar gydwybod dawel.

Gadawaf chwi yn awr, a dymunaf arnoch yfed yn helaethach o ysbryd y llyfr ydych wedi dyfynu mor helaeth o hono yn eich epistol diweddaf; gobeithiaf y byddwch yn fwy tebyg i'w awdwr bendigedig cyn y cyfarfyddwn eto. Dim chwaneg ar hyn o bryd, chwaneg os bydd angen.

GWYLIEDYDD

Hawdd deall dicter y plwyfolion. Lleiafrif ohonynt yn unig a fynychai wasanaethau'r Eglwys. Tanlinellwyd hyn mewn llythyr oddi wrth Benjamin Hall at Esgob Llandaf yn 1851. Heriodd Hall honiad yr Esgob fod angen deg eglwys newydd yn yr Esgobaeth a dyfynnodd ystadegau am y sefyllfa ym Mhen-tyrch (ymhlith plwyfi eraill) ar Sul arbennig (Hydref 13 1850) pryd y gwnaethpwyd arolwg o'r sefyllfa. Ar y Sul arbennig hwnnw yr oedd cyfanswm y cynulleidfaoedd yn nhri chapel anghydffurfiol y cylch yn 640 tra mai 52 yn unig a oedd yn bresennol yn yr Eglwys ac o'r rhain 'yr oedd 20 o gantorion o gapel Ymneillduedig' - felly, 32 oedd y nifer cywiredig. (*Seren Gomer* 34 (1851) 81 - 85.) Ym Medi 1858, dair blynedd yn unig cyn y cythrwfl yn nhudalennau *Y Gwladgarwr,* roedd yr Annibynwyr wedi agor eu capel ym Mronllwyn - gweithred a oedd yn sicr o fod wedi rhoi rhagor o halen ar y briw eglwysig.*

* Methiant fu ymgais blaenorol yr Annibynwyr i sefydlu capel tua 1850. Roedd maint capel (hynny yw, y nifer o seddau) ynghyd â'r cost o'i godi yn symbol statws pwysig yn natblygiad Anghydffurfiaeth Cymru. Codwyd Penuel Pen-tyrch (Bedyddwyr) yn 1838 ar gost o £200; ei ddimensiynau mewnol oedd 24 troedfedd wrth 31. Rhagorai Bronllwyn ar hyn; ei faint oedd 30.5 troedfedd wrth 30.5 ac fe'i codwyd (yn 1858) ar gost o £319. 9s. 10c. (*Yr Ystorfa Weinidogaethol* 1 (1838) 124; *Y Diwygiwr* 23 (1858) 347).

Gwelir bod y ddadl wreiddiol wedi magu gwedd newydd. Mae'n amlwg fod yr hyn a gychwynnodd fel dadl ynghylch gweithred y Ficer yn cyfyngu addysg yn yr ysgol ddyddiol i fynychwyr Ysgol Sul yr Eglwys, wedi datblygu'n ymryson personol rhwng y sawl a'i galwai ei hun yn 'Gwyliedydd' a Charles Prichard, ysgolfeistr Pen-tyrch. Dechreuwyd ymosod ar wendidau addysgiadol y prifathro yn ogystal ag ar gymeriad y ficer ac yn fwyaf arbennig ar ei ddiffyg dawn bregethu. Ni wyddys pwy oedd 'Gwyliedydd' ond ymddengys fod ganddo elyniaeth anghymodlon tuag at Prichard. Ond nid oes unrhyw gyfeiriad yn rhifynnau olynol *Y Gwladgarwr* at y 'cyfarfod disgyblu' arfaethedig a grybwyllwyd gan 'Gwyliedydd' yn ei lythyr olaf; ceir yr argraff fod ei ddadleuon parthed diffygion Prichard wedi syrthio ar dir pur greigiog ac ymddengys nad oedd unrhyw symudiad pellach yn y cyfeiriad hwnnw.

Cafwyd adroddiad, fodd bynnag, am 'gyfarfod athrawon' ar ddydd Sul Medi 29ain i drafod 'yr angenrheidrwydd o gael dosbarth Seisoneg i ddysgu gwersi yn 'Spelling Book Charles Vyse' a'r cyffelyb. (*Y Gwladgarwr,* 2 Tachwedd 1861, adroddiad gan 'Amicus') Dadl rhai o'r brodyr oedd 'fod y Cymry yn golledwyr am nad oeddent yn medru Seisoneg' ond 'gwrthwynebwyd hyn gan eraill, a chan un trwy ddangos fod yr ysgol yn colli ei hamcan, ei chydweithrediad, a'i heffeithiolrwydd ar y Cymry ... a bod amser at bob peth; am hyny, gwersi o'r Beibl yn unig i ddysgu ar y Saboth; a dyddiau gwaith i'r Spelling Book' a'r cyffelyb.' Anodd gwybod sut yn union i ddehongli'r adroddiad niwlog hwn. Tybiaf mai athrawon yr Ysgol(ion) Sul oedd y rhain a'u bod yn gwrthwynebu'r cynnig y dylid gosod yr Ysgol Sul ar yr un sylfaen Saesneg â'r ysgol ddyddiol.

Bid a fod am hynny, am y ddau 'ddihiryn' yn y prif ddrama – Charles Prichard, yr ysgolfeistr a Horatio Thomas, y ficer - nid ymddengys fod yr holl ymryson wedi effeithio'r un dim ar eu bywyd yn y pentref. Ni siglwyd ar eu safle fel prif echel



gymdeithasol y plwyf am ugain mlynedd arall - hyd nes marw Thomas yn 1880. Mae modd dilyn eu symudiadau drwy gyfeirio at adroddiadau yn y wasg leol (*Y Gwladgarwr* yn bennaf), y Cyfrifiadau am 1851, 1861, 1871, 1881 a 1891, y cofnodion plwyf am yr ardal a hefyd drwy ymgynghori â nifer o ffynonellau eraill megis y 'Llyfr Festri' ar gyfer plwyf Pen-tyrch. Daw yn eglur fod y Ficer a Prichard wedi cydweithio law yn llaw i foldio datblygiad y plwyf am gryn gyfnod yn ail hanner y ganrif.

**Charles Prichard**

Ganwyd Prichard yn 1824 yng nghyffiniau Merthyr Tydful. Bu'n glerc cyn ei benodi'n ysgolfeistr ym Mhen-tyrch yn 1844; Prichard felly a oedd â gofal yr Ysgol Genedlaethol yno adeg ymweliad William Morris, cynrychiolydd y Comisiynwyr Addysg, ar Fawrth 18fed 1847. Prichard hefyd oedd y rhestrwr (*enumerator*) ar gyfer ei ran ef o Ben-tyrch yng Nghyfrifiad 1851; mae'n bleser darllen y cofnodion yn ei ysgrifen glir a chymen. Roedd ef ei hunan, yr adeg honno, yn byw yn rhif 4, Ty'n y Waun Row ynghyd â'i wraig Catherine a thri o blant. Glowyr oedd preswylwyr y tai ereill yn Ty'n y Waun Row.

Yn 1861 yr oedd y manylion yn fwy annelwig a Prichard (oedran 37) yn byw bellach mewn tŷ yn y *'Village'* (ni wyddys ym mha le yn union am na roddwyd enwau ar y tai yng Nghyfrifiad 1861) ynghyd â'i wraig Catherine (37 oed) ac erbyn hyn, chwech o blant - Catherine (15), William (12), Charles (11), Margaret (9), Thomas (6) ac Anne (1). Yn ôl Cyfrifiadau 1851 a 1861 ganwyd Prichard ym Merthyr Tydfil a'i wraig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond yn ôl Cyfrifiad 1871 Aberdâr oedd man geni Prichard. Cafodd Charles, y trydydd plentyn, ei eni, nid ym Mhen-tyrch ond yn Llanilltud Faerdre gerllaw. Erbyn 1871 yr oedd y plant i gyd ond yr ifancaf (Ann (sic), bellach yn 11 oed) wedi gadael y cartref a enwyd bellach yn 'School House' ac a

oedd, mae'n debyg, yn sownd wrth yr ysgol a leolwyd lle y ceir tai Cefn Llan heddiw.

Cafwyd manylion pellach am weithgareddau cynnar Prichard yn llyfr festri Pen-tyrch (*Resolution Book for the Parish of Pentyrch*). Ar Ionawr 6ed, 1852, a'r Parchedig H. Jas. Thomas yn y gadair, penderfynwyd penodi Charles Prichard yn Glerc y Festri ar gyflog o ddeuddeg punt y flwyddyn ac o hynny allan Prichard yr ysgolfeistr oedd yn gyfrifol, yn ei lawysgrif gymen a chlir, am y cofnodion o'r cyfarfodydd. [Cynhaliwyd y cyfarfodydd festri ryw chwe gwaith y flwyddyn; ai cryn gyfran o'r amser i drafod pennu a chasglu'r 'rhenti tir' lleol].

Ymhen dwy flynedd, penodwyd Prichard yn *Assistant Overseer* ar gyfer plwyf Pen-tyrch ar gyflog o ddeunaw punt y flwyddyn; cadeirydd y 'pwyllgor' penodi oedd y Parchedig H. Jas Thomas. Roedd hyn yn benodiad o gryn bwys ac ymhlith y dyletswyddau oedd gweithredu fel ysgrifennydd i'r cyfarfodydd festri, gweinyddu'r trethi plwyf, cynorthwyo wardeiniaid yr eglwys a'r casglwyr trethi, paratoi'r rhestri ar gyfer aelodaeth rheithgorau, a chydweithredu â'r ficer yn ei ymwneud â gwahanol elusennau.

Bid a fo am ei swyddi eraill, y mae'n amlwg nad oedd gwaith ysgolfeistr yn llwyr wrth fodd calon Prichard. Efallai, wedi'r cwbl, y bu peth sail i gŵynion y pentrefwyr yn 1861. Droeon, yn ôl y llyfr cofnodion, bu'n rhaid cau'r ysgol oherwydd rhyw anhwylder neu'i gilydd ar ei ran – megis ar Ebrill 14 1876 pryd y sgrifennodd Prichard: 'The master was too ill, with a severe attack of rheumatism, to keep open the school' Ar gyfer Mehefin 9fed yn yr un flwyddyn nododd Prichard fod rhai o'r plant wedi symud o'r ysgol i ysgol Bethlehem [Gwaelod-y-Garth] am fod pensilau, ysgrifbinnau a llyfrau i'w cael yno am ddim. Dyna oedd dechrau'r diwedd i Prichard fel ysgolfeistr Pen-tyrch. Ar gyfer Mehefin 30 cafwyd ganddo ei gofnod olaf: 'The master



(Charles Prichard) resigned this evening after a service of thirty two years'

Ond ni fu hyn yn ddiwedd y daith i Prichard o bell ffordd. Yn 1876 codwyd ei dâl fel goruchwyliwr cynorthwyol i £30 y flwyddyn ac yn 1880 cadarnhawyd ei benodi am gyfnod pellach (a Horatio Thomas yn y gadair ar y ddau achlysur). Cytunwyd hefyd fod hawl gan unrhyw aelod o'r cyhoedd i dderbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd festri a bod Prichard yn cael codi am y gwaith copïo ar raddfa o grot [4 hen g.] am bob 72 o eiriau. At hyn derbyniai Prichard £4 y flwyddyn am ryddhau ystafell yn ei dŷ ar gyfer storio dogfennau'r plwyf. Am gyfnod hefyd bu'n cynnal ysgol fach mewn tŷ preifat yn y pentref. At hyn oll Prichard oedd arweinydd Côr Pentyrch yn ei amryfal ymweliadau ag Eisteddfodau'r cylch yn ail hanner y ganrif.

Cadarnhawyd ymddiswyddiad Prichard (man geni 'Merthyr') yr ysgolfeistr yn y Cyfrifiad am 1881 lle y'i disgrifiwyd fel *'Assistant Overseer'* yn unig; erbyn hyn yr oedd ysgolfeistr newydd (David T. Jones, oedran 36 ac yn enedigol o Sir Frycheiniog) yn byw yn Nhŷ'r Ysgol. Bu farw gwraig Prichard yn 1873 a'i chladdu ym mynwent Penuel. Yr oedd Prichard ei hunan bellach yn byw yng Nghlawdd Shôn ynghyd â'i ŵyr Gwilym Richard (mab Ann); hefyd yn byw yng Nghlawdd Shôn oedd Evan Griffiths (glöwr) a'i deulu. Erbyn 1891 roedd Prichard (oedran 67, 'man geni Aberdâr') wedi symud i Bryn Teg ynghyd â'i ferch ifancaf Ann (bellach 'Ann Morris, gweddw') a'i thri phlentyn Gwilym, Charles a Thomas. Roedd Prichard yn dal yn *Assistant Overseer.*

Ni all fod amheuaeth nad oedd Prichard a Thomas, ill dau, yn ddynion o gryn ddylanwad yn y pentref. (Am fanylion pellach am y ddau, ynghyd â lluniau, gweler [Don Llewellyn] *Pentyrch, Creigiau and Gwaelod y Garth* (Pentyrch/Stroud, 1997) tt.10, 97). Yn sicr, nid ymddengys fod yr ymgecru yn 1861 wedi

amharu mewn unrhyw ffordd ar ymrwymiad y ddau i faterion cymunedol nac ar eu safle cymdeithasol. Yn wir, y mae modd dadlau mai fel arall yr oedd pethau a'r ddau megis wedi ymdaflu fwyfwy i faterion cymunedol o hynny allan.

Dechreuodd Pritchard gyhoeddi barddoniaeth yn *Y Gwladgarwr,* er na fu, yn ôl ei gyfaddefiad ei hunan, yn ymwybodol o fodolaeth yr wythnosolyn hyd nes i 'Gwyliedydd' ymosod arno ynddo ar 21 Medi 1861. (Mae'n anodd iawn derbyn hyn - bod yr ysgolfeistr lleol heb wybod am fodolaeth un o brif newyddiaduron ei blwyf.) Cafwyd gan 'C.P.P' [Charles **P**richard **P**entyrch] yn rhifyn Mawrth 1af 1862 gyfres o benillion am lythyrgludydd Pen-tyrch sy'n rhoi inni beth syniad am arferion darllen rhai o drigolion Pen-tyrch yn ail hanner y ganrif; roedd ei englynion yn ymosod ar 'Gwyliedydd' (gweler uchod) eisoes wedi dadlennu cynefindra Prichard â natur barddoniaeth.

Y Postman - Pentyrch

Chwi hoff gyfeillion plwyf Pentyrch
Rho'wch gynyrch deall dawnus
I blethu geiriau tlws o glod
I'r hyglod EVAN MORRIS
Ein gwiw lythyrwr gonest, da,
Ofala am y cyfan.
Fu gan Victoria neb erioed
Yn uwch ei glod fel Postman,

Mae'n boreu godi - ymaith, ffwrdd,
I gwrdd a'r *bags* yn gynar,
Gan gyflym fyn'd trwy'r glaw a'r gwynt,
Yn gynt na'r *train* o'r haner;
Llawer boreu drwy'r llwyd rew
A'i flew yn bib ia'n hongian
Er aml hyll o eira'n drwch
A ef yn fflwch trwy'r cyfan.



Pan ddel ei amser, rap-ti-rap
Y drws a'i gnap yn swnio,
Hai John, ma'r postman wedi dod
Rhowch wybod beth sydd ganddo;
A letter for Miss Jane I have,
For Morgan the GWLADGARWR
For William too a pamphlet small
They call it Hanes Tewdwr.

A London Journal for Miss Drew
For you a Merthyr Guardian
The Star of Gwent, The Daily Times,
And for Joe Chimes the Cambrian.
Ac felly'r â o dy i dy
Heb oedi *tick* yn unman
Dosbarthu ei seliedig gol
Yn fanol wna ein Ieuan

Postmaster-General fydd ar fyr
Mae'n sicr o'i bromotio
'Manylrwydd, brys a iaith difrad,'
Yn wastad yw ei fotto.
Os teilwng rhoddi parch a bri
Lle byddont yn ddyledus
Diamau mai ein dyled ni,
Yw parchu Evan Morris.

Yn fuan ar ôl hyn, yn rhifyn Mawrth 22 o *Y Gwladgarwr,* cafwyd gan Prichard adroddiad blodeuog a chanmoliaethus iawn o ddarlith ar Gerddoriaeth a draddodwyd gan y Parchedig E. Stephens, Tanymarian yng Nghapel Bronllwyn [Annibynwyr]

'Rhoddodd Mr Stephens brawf fod ynddo wedi cydgyfarfod awen ac athrylith bardd, cywreinrwydd a galluoedd cerddor, dysgeidiaeth a gwybodaeth llenor, doethineb a manylrwydd gwyddonwr, a'r cwbl wedi eu coroni a gostyngeiddrwydd a duwioldeb Cristion ... Pan oedd Mr Stephens yn dynwared adar er dangos eu gwahanol leisiau peroriaethol,

dywedai hen wr yn nghornel y capel, na chredai nad oedd adar ganddo yn yr areithfa at ei wasanaeth, ac mai o herwydd gwres y dorf y canodd y gôg, pan ei argyhoeddwyd o'i dyb, dywedodd. 'Wel, ynte, mae efe yn sicr o fod wedi ei eni wrth droed Parnassus neu Helicon a chafodd afael yn rhywle ar hen lyfrau Jubal.'

Cyhoeddwyd cynhyrchion barddonol eraill gan Prichard o dro i dro yn *Y Gwladgarwr* megis ei gerdd 11 bennill 'Y Gog'; ac yn Eisteddfod Cymrodorion Ffynnon Taf ar ddydd Llun Rhagfyr 8fed 1862 (a'r Parchedig Horatio Thomas yn cadeirio) enillodd ddwy wobr yn yr adran barddoniaeth. Bu Prichard a Thomas, ill dau, yn chwarae deuawd cymunedol yn y modd hwn, droeon. Ar Fawrth 22 1863 cafwyd yr adroddiad canlynol, yn *Y Gwladgarwr*; mae'n tanlinellu amryfal ddoniau Prichard fel darlithydd, canwr a chyfansoddwr.

Treuliwyd dydd priodas Tywysog Cymru gyda rhwysg mawr yn y lle hwn. Cyhoeddwyd fod te a theisen i'w rhoddi yn rhad i bawb yn yr Odd-fellows Hall ym mhentre Pentyrch, am ddau o'r gloch ... Bwytaodd 657 eu digon o'r ddarpariaeth helaeth. Bu Meistresi H.J.Thomas, E. John, Blaenbielli, W. Lewis, J. White, J. Branch, Miss Garsod, Park, ac amryw ereill yn wrywod a benywod yn ddiwyd trwy y dydd, er rhoddi eu digonedd i bawb. Wedi symud y lliain etholwyd Mr E. John, Blaenbielli i'r gadair. Cyfarchodd y Parch. H.J. Thomas y dorf luosog ar yr amgylchiad a chafodd wrandawiad astud a dangosodd y dorf eu llwyr boddlondeb. Yna cawsom ddarluniad campus o ddaearyddiaeth anianol a gwladol (physical and political), Denmark, yn nghyd ag hanes y wlad a'i thrigolion gan Mr Prichard, yr ysgolfeistr, a chanodd gan odidog, wedi ei chyfansoddi ganddo i'r amgylchiad, nes oedd yr holl dorf yn gollwng eu beichiau yn anghof ac yn ymuno yn y gydgân ar ddiwedd pob penill, yn un sain gref. Cyfarchwyd y cyfarfod gan amryw ereill a therfynwyd yn brydlon. - Z.

Tua'r un adeg cyhoeddodd Prichard, yn bamffledyn pedwar tudalen, gerdd *Ar hanes Helfa y Llwynog a ollyngwyd ar Glawdd-Shôn, ac a laddwyd yn Sophia Gardens, Caerdydd, gan Gŵn Pentyrch* (William Jones, Caerdydd, c. 1863). Roedd defnyddio disgrifiad o helfa yn ddull digon cyffredin yn y



bedwaredd ganrif ar bymtheg o gofnodi a disgrifio gwahanol bersonoliaethau mewn ardal ac mi fanteisiodd Prichard i'r eithaf ar y ddyfais hon yn ei gerdd ddeg pennill sy'n dechrau gyda'r geiriau:

Am oesoedd y bydd son
Am enwog foreu *meet* Clawdd-Shôn
A helfa'r llwynog coch
Yn helwyr llon a'r cwn
Cyn hir arwyddent drwy eu swn,
Y dalient ef yn groch ...

Yn y penillion a ganlyn mae'n enwi'r pedwar ar hugain o gŵn hela a oedd yn y pac, (Blueman, Dainty, Lovely, Frolic, Collier ac yn y blaen – enwau Saesneg bob un) cyn mynd ati i enwi'r helwyr ac i ddisgrifio hynt yr helfa – o Ben-tyrch i gyffiniau Caerdydd:

Aeth Williams y Tyclyd
A Roberts dewr o'r Garth ynghyd,
A Johns o'r Ynysgau,
A Williams o'r Garth Fawr,
Ac Anth'ny Williams fel rhyw gawr
Yn gyru yn ddifai:-
Gadael Bronllwyn, heibio Penllwyn
Ac i lawr i Tincwd tew,
Yna'n gyflym i Graig Gwilym
Yn ei erlyn yn dra glew;
I goed y Gedrys aeth ar frys:
Trwy'r ynys bu yn gwau.
...

Y llwynog dewrwych braf,
Fu'n meddwl croesi Afon Taf
Gerllaw i'r Ynysgau;
Wrth deimlo'i hun mor gaeth,
I Fynydd mawr y Garth yr aeth
Dros greigiau serth, yn glau,
...

Dros Dwyn-y'deryn-du
Ac heibio Rhadyr aeth yn hŷ
I Dyllgoed ar ei ffo
'Roedd Charley'n gyru'n gaeth
Harbottle hylon hwylus ddaeth
A Lewis Llanbedr-Fro

...

Fry heibio'r Coleg braf
Ger enwog Ddinas hardd Llandaf
Hyd Afon Taf yr aeth
Y llwynog dewraf un,
Yn awr ddywedai'n eithaf blin,-
'Daw'n sydyn pen fy nhaith'

...

Bu farw Prichard ar Ionawr 21 1912 - diwrnod ei ben blwydd yn 88 oed. Fe'i claddwyd yn yr un beddrod â'i wraig ym mynwent Penuel, capel y Bedyddwyr. A oedd yn aelod ym Mhenuel ar hyd ei oes sy'n amheus, ac, yn anffodus, ni lwyddwyd i leoli unrhyw ddogfennau neu gofnodion o Benuel ar gyfer y cyfnod perthnasol. Prin y byddai beirniaid Prichard wedi dweud amdano 'nad oedd dim yn fwy annwyl gan ei galon nag erlid ymneillduaeth' (t. 19, uchod) pe buasai'n aelod ym Mhenuel ar y pryd. At hyn, mae gennym awgrym cryf gan Prichard ei hun ei fod, yn 1861 fodd bynnag, yn addolwr cyson yn yr Eglwys (gweler t. 23). Bu sôn gan rai am gweryl rhwng Prichard ac Horatio Thomas. Tybed nad oherwydd hyn ac ar ôl rhoi'r gorau i'w swydd yn ysgolfeistr, y trosglwyddodd ei deyrngarwch i Benuel, capel ei wraig ?

**Horatio James Thomas**

Ganwyd Horatio Thomas, yn drydydd mab i'r Parchedig William James, ym mhlwyf Sain Ffagan ar Chwefror 2 1805, diwrnod Brwydr Traffalgar, a seren y Llyngesydd Horatio Nelson yn bur uchel yn y ffurfafen



ymerodraethol. Ym mhlwyf Sain Ffagan hefyd y treuliodd ei fachgendod a'i ieuenctid a cheir peth gwybodaeth am ei ddyddiau cynnar yno yn nyddiaduron ei dad, William Thomas, am y blynyddoedd 1820 - 1823. Mae'n demtasiwn gweld cysylltiad rhwng ymddygiad anghonfensiynol ac anuniongred Horatio Thomas a dull anarferol ei dad o ennill ei fywoliaeth. Er bod William Thomas yn offeiriad yn Eglwys Loegr (fel 'clerk-curate' y'i disgrifiwyd ar dystysgrif geni Horatio) nid efe oedd offeiriad Sain Ffagan. Teithiai ar y Suliau (yn aml iawn yn ei cherdded hi) i wasanaethu eglwysi yng nghyffiniau Caerdydd – yn fwyaf penodol Eglwysi Lecwydd, Llandochau, Cogan ac weithiau Radur. Ei gyflog, ar gyfartaledd, oedd £22.50 y chwarter. Tua diwedd ei yrfa llwyddodd i sicrhau bywoliaeth Caerau, ger Caerdydd, ac fel 'Ficer Caerau' y cyfeirid ato weithiau.

Gofalai William Thomas gyfyngu ei weithgareddau eglwysig i'r Suliau yn unig. Yn ystod yr wythnos hawliai llu o weithgareddau eraill ei sylw a cheir amryfal gyfeiriadau yn ei ddyddiaduron at Horatio'r mab yn ei gynorthwyo yn y rhain – megis ar Ddydd Calan 1821, 'Fine frosty day. Went to Pentyrch along with James [= Horatio] and measured the churchyard.' Heblaw am ffermio ar raddfa fechan a chadw ysgol i ychydig o ddisgyblion dethol, William Thomas oedd buchfrechwr cydnabyddedig yr ardal, swydd bwysig ar adeg pan oedd ofn y frech wen yn ofn real iawn. Codai hanner gini - ffi reit sylweddol yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg - am gyflawni brechiad; ar 19 Rhagfyr 1820 cwblhaodd gynifer ag wyth brechiad ar hugain mewn diwrnod ac yn nechrau Mawrth 1821 buchfrechodd wyth o blant o Ben-tyrch.

Am Horatio ei hunan, fe'i hordeiniwyd i'r offeiriadaeth gan Esgob Llandaf ar 27ain Medi 1829 a'i drwyddedu'n gurad Llanilltud Faerdre tua'r un adeg. (*The Cambrian*, Hydref 10 1829). Am gyfnod bu'n gyfrifol am y gwasanaethau yn Eglwys Radur ar ymadawiad Evan Thomas yn 1832; am ei waith yn

Radur derbyniai gyflog o £60 y flwyddyn. Cyn hynny, bu'n gyfrifol am y gwasanaethau Cymraeg yno 'My plan for Radir' meddai Coplestone yr Esgob ar 13 Ionawr 1830, 'is to allow Mr Horatio Thomas £20 or £30 for performing the Welsh service there ... for I understand Mr Edmonds is not qualified in that language.' Byddai hefyd yn gweithredu'n achlysurol yn Eglwys Pen-tyrch yn absenoldeb y ficer - Y Parchedig Thomas Thomas a oedd yn 85 oed yn 1831 ac, ym marn Coplestone, 'quite incapable'; y cofnodiad cyntaf am Horatio Thomas yn hyn o beth oedd fel 'gweinidog gweinyddol' (*officiating minister*) ym medydd Susanna Llewelyn ar Awst 24 1831. O hynny allan bu'n bresennol ym Mhen-tyrch yn aml ac yn cymryd rhan mewn nifer o wasanaethau ond bob amser fel gweinidog gweinyddol. Y bedydd cyntaf iddo ei weinyddu fel 'Ficer Pen-tyrch' oedd ar Awst 24 1834 ym medydd Jennet Llewelyn, o Bantygwyn, 'Garth Hill'; 1834 hefyd oedd y 'date of admission' gyferbyn ag enw Thomas yn *The Clergy List* am 1851.*

Ceir peth gwybodaeth am ddyddiau cynnar Thomas gan gyfoeswr o offeiriad - Y Parchedig Evan Jones - sydd â sawl cyfeiriad at Horatio Thomas yn ei ysgrifau hunangofiannol. Urddwyd Evan Jones yn gurad ym mhlwyf cyfagos Radur yn 1853 a daeth ef a Thomas yn gyfeillion agos. Byddai'n ymweld â Phen-tyrch yn lled aml, yn bennaf i ddarlithio neu i bregethu yno ar gais Thomas. Am Thomas, ysgrifennai 'Yr oedd yn feddiannol ar lawer o arabedd miniog, yn ymylu weithiau ar ymadroddion trwstan a gwrthun. A byddai yn ymffrostio yn ei arabedd, gan nad pa mor drwstan y digwyddai fod.' Yn ôl Evan Jones 'Cyn ei fynediad i'r plwyf yr oedd Pentyrch yn hynod am ei ymladdfeydd, meddwdod, a phob math o rialtwch. Aethai Mr Thomas yno yn ddyn ieuanc cryf, heini a phenderfynol ac ym mhen ychydig o flynyddoedd llwyddasai i dorri i lawr y rhan fwyaf o'r aflywodraeth ... yn bennaf, trwy nerth ewyllys gref, caredigrwydd gwastadol a chyfraith wlad.'

* Gan fod Thomas wedi marw ym Medi 1880 ac wedi rhoi'r gorau i guradiaeth Llanilltud Faerdre yn 1878, mae'r honiad ar garreg ei fedd ei fod wedi gwasanaethu fel Curad Llanilltud am 52 flynedd ac fel Ficer Pen-tyrch am 47, felly yn llai na chywir.



Adroddodd Jones hanesyn am Thomas a'r Canon Jenkins o Ddowlais. 'Yr oeddynt ill dau mewn cyfarfod o offeiriaid yn Llandaf, ond yn methu aros i'r *luncheon* am fod galwad arnynt i ddychwelyd adref yn gynnar. Aethant, gan hynny, i dafarndy i ymofyn am giniaw. Pan welodd y Canon Jenkins ben llo ar y bwrdd dywedodd, "Wel, dyma ammeuthyn, ni chefais ben llo er aethym i Dowlais." "Machgen annwyl i," atebai Thomas gan gymmeryd crimpaid o drewlwch [snisyn], debygwn, "ni fu Dowlais heb fod pen llo yno er pan aethost ti i'r plwyf." Ac am achlysur arall, mewn cyfarfod o'r Iforiaid lleol: 'Newydd ymbriodi â dynes ieuanc o'r gymmydogaeth oedd Mr Thomas yr amser hwnnw [gweler isod] ac yn ei araeth ar ddiwedd y wledd yn y prydnawn, cyfeiriodd yn chwareus at y digwyddiad, ond gwell yw i mi beidio adrodd ei araeth yn y man hwn.'

Cafwyd gan Evan Jones sawl hanesyn arall am ddull di-lol Thomas o drafod pobl 'Trowyd i mewn i dŷ yn y pentref a dywedodd Mr Thomas wrth y wraig "Sian, a weli di y toes yna yn rhedeg dros y badell, yr hwch gas? Pa bryd y golchaist dy wyneb ddiweddaf ?" "Beth sydd arnoch chwi Mr Thomas, yr ydych yn waeth heddyw nag arferol" atebai y wraig yr hon a'i hadwaenai o'r gorau.' Nid y math o ymddygiad, bid sicr, a fyddai'n ei gymhwyso ar gyfer dyrchafiad eglwysig yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r cyfan yn atgoffa dyn o'r math o fraethineb sych a nodweddai rai o'r pregethwyr anghydffurfiol mwyaf adnabyddus yr adeg honno. Rhywbryd yn y 1850au roedd Edward Matthews a Samuel Jones, dau o hoelion wyth y Methodistiaid, yn pregethu ym Mhen-tyrch ac yn derbyn cinio yn nhŷ Thomas Lewis a'i wraig. Gwrthododd Matthews y 'trugareddau rhost' gan ddewis bara a dŵr. Gofynnodd Mrs

Lewis i Samuel Jones: 'Wnewch chi ymuno â ni, neu â Mr Matthews? 'Â chi' atebodd y gweinidog, 'nid wyf yn un o'r ysbrydion hyd yn hyn.'

Yn ôl Cyfrifiad 1841, yr oedd Horatio Thomas bryd hynny yn dal i fyw yn Sain Ffagan lle yr oedd ef a Frances Thomas (perthynas, o bosib) a'r gweision yn rhannu Castell Sain Ffagan â theulu arall. Yn ôl tystiolaeth a ddyfynnir gan Eurwyn Wiliam am y cyfnod cyn 1850 ...'The Castle was in a bad state of repair, and rooms in it were often occupied by families in the village, from time to time while their cottages were done up' (Eurwyn Wiliam *Castell Sain Ffagan a'i drigolion* (Caerdydd, 1988, t.34)

Erbyn 1848 yr oedd wedi symud i fyw i blwyf Pen-tyrch, lle bu'n lletya am nifer o flynyddoedd gyda theulu fferm Pentwyn. Cadarnheir hyn gan fanylion Cyfrifiad 1851 lle y dywedir fod H.J.Thomas, 'vicar Pentyrch' (oed 46) yn dal yn ddibriod a'i fod yn 'resident' ar fferm Pentwyn a oedd yng ngofal John Thomas, 'farmer of 98 acres employing 3 men', a'i deulu. Ymddengys nad oedd ficerdy addas ar gael bryd hynny - yn ôl un adroddiad am y flwyddyn 1852 nid oedd persondy ar gael ym Mhen-tyrch am fod y 'Glebe House' yn 'unfit for habitation.' Cyflog Ficer Pen-tyrch y pryd hynny oedd £113 y flwyddyn.

Ymddengys fod rhai wedi cwyno am nad oedd Thomas yn byw yn ddigon agos i'r eglwys. Dangosodd ei ymateb i Holiadur Gofwy Coplestone yn 1848, nad oedd yn llwyr amharod yn hyn o beth i ymarfer peth twyll yn ei ymwneud â'r Esgob. Wrth ateb y cwestiwn 'Do you reside in the Cure and in the house belonging to it ?' meddai, 'I do, but not in the House belonging to it' [hynny yw, yn perthyn i'r eglwys], gan ychwanegu, 'At Pentwyn about a quarter of a mile distant from the Church.' (Realiti'r sefyllfa yw bod rhyw dri chwarter milltir rhwng Pentwyn ac Eglwys Pen-tyrch.)



Ar Fai 9fed 1854 priododd Horatio Thomas â Hannah Williams o'r Garthfawr, Pen-tyrch. Perthynai Hannah i un o hen deuluoedd Pen-tyrch a'i chwaer Maria oedd yn briod â John Thomas, ffermwr Pentwyn, lle roedd Horatio Thomas yn lletya. Diau mai yn ystod un o'i mynych ymweliadau â chartref newydd ei chwaer y cyfarfuasai Hannah Williams â'i darpar ŵr. Yn Eglwys Llanilltud Faerdre y'u priodwyd. Roedd Hannah yn 28 oed ac Horatio yn 49; yn groes i'r arfer ni ddatgelwyd eu hoedran ar y dystysgrif briodas, dim ond nodi eu bod, ill dau, 'of full age.'

Tŷ cymharol fach mewn cyflwr gwael oedd Ficerdy Pen-tyrch yr adeg honno. Fe'i lleolwyd yn y rhan honno o'r Bryn Catwg presennol a adwaenid fel 'Y Cnepyn.' Pryd yn union y symudodd Thomas i fyw yno ni wyddys hyd sicrwydd, ond rhaid ei bod rywbryd rhwng 1851 a'i briodas yn 1854. Yn niwedd ei gofrestr bedyddiadau ar gyfer 1853 ceir ganddo y nodyn a ganlyn:

> 'The laurel that now grows in the Vicarage garden was brought from Bryncethin (?) and planted the 26th of February 1836. The walls about the vicarage were built about the beginning of the year 1835. The Vicarage land was hedged and ditch'd at the same time in the year 1835. The pine end between the Church and Chancel was taken down and rebuilt in the summer of 1835 by Thomas William Booker Esq. And a new roof put on the Chancel at the same time by David Morgan Clk curate of Lancarvan'

Yn ôl y Cyfrifiad am 1861, preswylwyr y Ficerdy oedd Thomas a'i wraig, ynghyd â John Thomas (7 oed, ac a ddisgrifiwyd fel nai i Mrs Thomas) a Susannah Russell (24 oed ac yn enedigol o Ben-tyrch) yn forwyn. Erbyn 1871 roedd ganddynt ddau yn gwasanaethu yn y Ficerdy - Elizabeth Jenkin (40 oed) o Lanbleddian ger y Bontfaen a Richard Griffiths o Dresimwn gerllaw. Yn eglwyswr pybyr a gweithgar, bu Horatio Thomas, yn ôl y sôn, â thueddiadau efengylaidd. Er hyn, diddorol sylwi nad oedd ei enw ymhlith yr ugain a mwy o offeiriaid lleol a oedd wedi cyfrannu at y Gronfa er ailgodi Eglwys Gadeiriol Llandaf yn 1857

- o bosibl am fod ei holl ynni a'i adnoddau wedi'u cyfeirio at ail-godi Eglwys Pen-tyrch yn yr un flwyddyn.

Perthyn peth dirgelwch i fater ailadeiladu'r eglwys. Yn ôl atebion y wardeiniaid eglwys i Holiadur Gofwy'r Esgob yn 1845 roedd cyflwr Eglwys Pen-tyrch yn dra boddhaol – y muriau'n gadarn ac wedi'u plastro'n iawn, y gwaith cerrig mewn cyflwr da, y ffenestri i gyd yn gyfan, y lloriau'n wastad a'r drysau'n gadarn; yr unig wendid amlwg oedd bod angen 'pwyntio' to'r gangell. Horatio Thomas a luniodd ac a sgrifennodd eu sylwadau ar gyfer y ddau warden eglwys am nad oedd y naill na'r llall yn medru darllen nac ysgrifennu – ni wnaethont ond gosod X gyferbyn â'u henwau ar ddiwedd adroddiad Horatio Thomas. Er hynny, ymhen chwe blynedd, mewn cyfarfod o'r Festri ar Fai 5 1851, a'r Parchedig Horatio Thomas (cadeirydd) a 28 o blwyfolion yn bresennol, penderfynwyd 'That the parish Church be entirely rebuilt,' a chytunwyd i osod treth o swllt yn y bunt at y gwaith.

Go drafferthus oedd y broses o ailadeiladu'r Eglwys a thrwsio wal y fynwent. Costiodd y cyfan dros £1500 (£1339 i'r adeiladwyr am godi'r adeilad newydd, £45 am ddymchwel yr hen eglwys a gosod y sylfeini newydd ynghyd â mân symiau eraill). Roedd nifer wedi addo cymorth ariannol ond araf iawn oedd rhai ohonynt i gywiro eu haddewidion. Cyfrannodd Thomas ei hunan £50 (cyfran sylweddol o'i gyflog blynyddol) a Charles Prichard yntau £1. Prin iawn oedd y cyfraniadau gan blwyfolion Pen-tyrch eu hunain, yn bennaf efallai, am fod y Festri wedi cytuno ar Dachwedd 29 1855 i osod 'a Rate at one shilling and fourpence in the Pound ..... for the purpose of Rebuilding the Parish Church' a'i dilyn yn Nhachwedd 1856 gan dreth o ddau swllt yn y bunt.

Penodwyd Charles Prichard yn 'Clerk of the Works' a hefyd yn Ysgrifennydd i'r 'Pwyllgor er adeiladu Eglwys Pen-tyrch'. Erbyn diwedd 1856 cawn fod Prichard a Thomas yn gorfod ysgrifennu



at nifer o'r rhai a oedd wedi addo tanysgrifio at y gronfa yn eu hatgoffa am eu haddewidion. 'We are very much in want of money at present to carry on the work' meddai Thomas yn un o'i lythyrau ac ni lwyddwyd i gwblhau'r cyfan tan ddiwedd 1857. Cysegrwyd ac agorwyd yr Eglwys newydd yn Nhachwedd 1857 gyda gwasanaeth Saesneg yn y bore er mwyn yr Esgob a'r urddasolion eglwysig a gwasanaethau Cymraeg yn y prynhawn a'r nos er budd y plwyfolion. (*Cardiff and Merthyr Guardian*, Tachwedd 28, 1857) Ar hyd y dydd roedd croeso i bawb gyfranogi o luniaeth yn y Ficerdy, gweithred a oedd yn llwyr nodweddiadol o dueddiadau cymdeithasol Horatio Thomas.

Diddorol nodi nad oedd cyflwr yr eglwys newydd yn berffaith o bell ffordd. Bu'n rhaid pennu treth o dair ceiniog yn y bunt ym Medi 1864 ar gyfer 'repairs of the Church, enlarging the churchyard and making a new wall around the churchyard' a'i dilyn gan un gyffelyb yn 1874 ar gyfer rhagor o waith atgyweirio. Ychydig a wrthwynebai'r penderfyniadau hyn, gymaint oedd grym Horatio Thomas fel cadeirydd y Festri.

Roedd ambell benderfyniad o'r fath yn gryn her i ddemocratiaeth leol - megis y cyfarfod o'r Festri a gynhaliwyd ar Ionawr 6ed 1870 yn y *Kings Arms* pan gytunwyd ar dreth o ddwy geiniog yn y bunt at ddraenio'r fynwent ac atgyweirio meindwr yr Eglwys – a dim ond y cadeirydd (Horatio Thomas) a dau o wardeiniaid yr eglwys yn bresennol.

Ond prin bod dim byd yn tanlinellu personoliaeth unigryw Horatio Thomas yn fwy nag ei ymwneud â dau sefydliad y tu allan i ffiniau caeth Pen-tyrch – y berthynas rhyngddo a'r Esgob Coplestone ar y naill law, a'i aelodaeth o Fwrdd Gwarcheidwaid Caerdydd ar y llall.

**Edward Coplestone**

Daeth Edward Coplestone yn Esgob Llandaf yn 1827 a bu yno hyd nes iddo farw yn 1849. O'r cychwyn cyntaf penderfynodd fod tair prif broblem yn ei wynebu yn yr esgobaeth – cyflwr adfeiliedig nifer o'r eglwysi gan gynnwys yr Eglwys Gadeiriol ei hunan, yr iaith Gymraeg, a chamymddygiadau moesol nifer o'i glerigwyr. Ni cheisiai guddio ei farn mai tipyn o niwsans oedd y Gymraeg. 'The bilingual parishes are my greatest plague ...' meddai mewn llythyr at J.M.Traherne ar Ddydd Calan 1848 ac ar achlysur arall (26 Ionawr 1837) 'I am almost sick of this Cwmry, Cwmro, Cwmrag mania ... Ymhelaethodd ar ei safbwynt yn rhai o'i lythyrau at Bruce Knight, Canghellor Llandaf, *confidant* a chynghorwr Coplestone mewn materion gweinyddol.

> ... Miss M.J. Williams of Ynis lâs Cottage has sent me a prospectus of her intended publication, soliciting my name as a subscriber. This, of course, is a command. I therefore promise my guinea for the Prize Music and Prize Bardism of the Abergavenny Cwmrygiddion [sic] – for which I would not, if left to myself, give one farthing.
> I would propose for the next prize (if I thought I should escape assassination) a Gilt Marrowbone for the best translation into Cwmrg [sic] of the Saxon englyn – Taffy was a Welshman ... (5 Ionawr 1843)

Tebyg oedd ei asesiad o weithgareddau teulu Llanofer o blaid y Gymraeg. 'You have, I doubt not, most courteously said No to the Bee of Gwent. [Gwenynen Gwent, Arglwyddes Llanofer]. I wonder they are not tired of this barren nonsense ...' sgrifennai at Knight ar 8 Hydref 1842. Ymddengys fod Knight, yn ystod blynyddoedd cynnar Coplestone yn Llandaf, wedi ceisio newid agwedd yr Esgob at y Gymraeg, ond yn ofer. Felly'r llythyr ar Awst 16 1834:

> '... I am somewhat perplexed and disturbed by what you say of my absence from the Eistedfod [sic] ... Between ourselves, I never liked this attempt to encourage and keep alive the Welsh language – and I am convinced that it would be beneficial to the country in many ways if that language ceased to be spoken, Yet I do not like unnecessarily to offend ... the prejudices of the people.'



Ond bid a fo am ei deimladau personol am werth intrinsig y Gymraeg nid oes amheuaeth nad oedd Coplestone yn llwyr ddeffro i'w phwysigrwydd fel cyfrwng cyfathrebu yn yr esgobaeth. Gofalai fod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ôl yr angen ac ni phetrusai groesi cleddyfau â rhai o brif noddwyr yr Eglwys yn hyn o beth – megis wrth gyfiawnhau wrth Arglwydd Bute fod gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer Eglwys y Rhath yng Nghaerdydd. Roedd Horatio Thomas ymhlith y Cymreiciaf o'i glerigwyr ac yn hynny o beth yn dra defnyddiol felly; efallai mai dyna oedd y rheswm paham y tueddai Coplestone i edrych arno'n garedig, a hyd yn oed i anwybyddu rhai o'r cwynion a ddygwyd yn ei erbyn o dro i dro.

Derbyniai Coplestone lu o gŵynion am wendidau a diffygion rhai o'i offeiriaid ac ni cheisiai ffrwyno ei dafod wrth ddatgelu i Knight ei farn personol am rai o'i 'afalau drwg'. Anodd dweud pa un oedd waethaf ym marn Coplestone, curad 'anfoesol' neu gurad 'twp' ac ymddengys fod digonedd o'r ddau gategori ar gael yn Esgobaeth Llandaf yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Defnyddiai iaith blaen wrth ddisgrifio rhai o'r troseddwyr hyn: 'I look upon Morgan as a vulgar, sensual, unprincipled man' ysgrifennai am glerigwr o Fro Morgannwg; 'Jenkins was seen last Saturday drunk in the streets of Bridgend' am Picton Jenkins, Ficer Santes Ffraid; 'What a sad thing it is to have such a poor creature saddled upon us' meddai am un John Davies; 'Little Griffiths, I heartily wish we were rid of him' am arall; ac am un Ireland Thomas 'of abominable moral conduct...I should tremble at the thought of committing the souls of men to his charge' Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniai yn cyfeirio un ai at ddiota a meddwdod neu at blant anghyfreithlon a genhedlwyd

gan aelodau o'r offeiriadaeth. Derbyniai hefyd gŵynion am Horatio Thomas ond yr oedd y rhain o natur wahanol ac am ryw reswm tuedd Coplestone bob amser oedd amddiffyn Horatio Thomas neu ofalu fod y ceryddu yn gymharol ysgafn.

Yn 1833 bu farw Thomas Thomas, ficer Pen-tyrch ar y pryd, mewn gwth o oedran. Roedd Coplestone yn awyddus i weld penodi Horatio Thomas yn olynydd iddo. Sgrifennodd at Bruce Knight ar Hydref 28 1833:

> 'Now as to Pentyrch. The die is cast. I hope you will not disapprove of what I have done. Horatio Thomas brought me the intelligence on Saturday. I did not hesitate to say I thought he had earned it ... without being required by me to give up Lantwit Faerdre [roedd Thomas ar y pryd yn gyfrifol am Radur yn ogystal â Llanilltud Faerdre] ... when I consider that Thomas has served Pentyrch almost gratuously, without neglecting his own duty, and that he is one of the best conducted and ablest young clergymen in Glamorganshire and brother-in-law to Hugh Williams,* and son to poor Mr Thomas of Cairau, I do not think I could have made a better arrangement.'

Ac mewn llythyr at J.M. Traherne wythnos yn ddiweddarach '... old Mr Thomas of Pentyrch has paid the debt of nature. His successor will, I believe, be Horatio Thomas, who has been serving the church gratis for more than a year, and is a sensible, conscientious and well behaved young man'

Ond oedodd Horatio Thomas cyn derbyn Pen-tyrch yn swyddogol. Mynnodd gael gan yr awdurdodau sicrhad na fyddai

* Bu'r Parchedig Hugh Williams yn Ficer Basaleg yng Ngwent, yn Ganghellor yn yr Eglwys Gadeiriol ac yn nes ymlaen yn arholwr yn y Gymraeg i'r Esgob Ollivant, olynydd Coplestone. Yn 'gryn getyn o Gymreigydd' yn ôl Evan Jones (gweler uchod) byddai Williams yn cynghori Coplestone ynghylch materion Cymraeg. Roedd yn briod â chwaer Horatio Thomas.



raid iddo ildio ei swydd yn Llanilltud Faerdre wrth ymgymryd â Phen-tyrch. (Gwerth Llanilltud Faerdre ar y pryd oedd £32). Cytunodd Coplestone, ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn 1834 sefydlwyd Horatio Thomas yn Ficer Pen-tyrch – ond nid cyn i Coplestone dderbyn ganddo addewid y byddai, o hynny allan, yn rhoi'r gorau i hela a gweithgareddau cyffelyb. Ac felly y cychwynnodd gyrfa liwgar Thomas fel Ficer Pen-tyrch. Bu'n Ficer Pen-tyrch hyd ei farw yn 1880 ac am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw bu'n Gurad Parhaol Llanilltud Faerdre hefyd.

Rhaid nad oedd penodi Horatio Thomas yn Ficer Pen-tyrch wrth fodd calon pawb. Dechreuodd Coplestone dderbyn cwynion am ei ymddygiad an-glerigol. Ddiwedd 1835 derbyniodd lythyr oddi wrth Edward Tuberville Llewellyn (wedi hynny yn Ynad Sirol ym Morgannwg) ar ran ei ewythr y Parchedig Henry Llewellyn yn honni fod Horatio Thomas wedi tresbasu trwy hela ar eu tiroedd. Siomodd Coplestone ond ni ddigiodd. 'I wrote to Thomas' meddai wrth Knight (8 Ionawr 1836) '... his answer talks of exaggeration and malice but he cannot deny that he promised me to abstain from field sports and this promise he has violated.' (Nid oedd enw Horatio Thomas ymhlith yr helwyr a enwyd yng nghân hela Charles Prichard, felly mae'n bur debyg ei fod wedi gwastrodi ei dueddiadau hela erbyn y 1860au.)

Yn fuan wedyn, derbyniodd gŵyn arall – y tro hwn oddi wrth y Parchedig Ddr Lisle, Ficer Sain Ffagan – plwyf genedigol Horatio Thomas. Nid yw Coplestone yn manylu ynghylch natur y cwynion (a oedd, efallai, y tro hwn, yn rhai diwinyddol) a beth bynnag, nid oedd ganddo fawr o feddwl o Lisle a'i syniadau:

> What a strange creature the Orthodox Doctor is. The charges he brings against Horatio are just the sort of things he himself has been doing for the greater part of his clerical life. I own I am not conservative enough to perpetuate his breed in the Church. Horatio has, I believe I told you, written a very penitential letter intreating to be again received into favour. I have thought it best to make that dependent upon rather a longer

probation than I have yet had – treating him as I presume he has often treated a delinquent pointer. (12 Chwefror 1836)

Ymhen y mis cyrhaeddodd rhagor o gŵynion – y tro hwn yn tynnu sylw'r Esgob at y ffaith nad oedd Horatio Thomas yn preswylio yng nghyffiniau eglwys Pen-tyrch – roedd yn dal i fyw yn Sain Ffagan ar y pryd (gweler uchod, t. 41). Ymateb Coplestone, mewn llythyrau at Bruce Knight, oedd cefnogi Thomas yn ddi-amod:

... Horatio Thomas (whatever may be his faults) seems to be the object of prejudice and malice. I wrote to him about his non-residence, carefully abstaining from any words which might afford a clue to the source of my information ... Wm Lewis of the Park ought, I think, to be called upon to make good his complaint, ... (22 Mawrth 1836)

... Horatio Thomas appears to me to have been very ill-used in this last instance, and so I have told him without mentioning names. It is a palpable falsehood invented for the purpose of doing him an injury ... the population of Pentyrch, such as it is, does nor lie near the Church, where the pretended friends of the Church complain he does not live ... certainly he now appears to be entitled to my protection instead of being obnoxious to my displeasure or suspicion. (31 Mawrth 1836)

Ymdawelodd y gwyntoedd croesion a dyna gychwyn ar dwf Horatio Thomas fel ffigur o ddylanwad a grym yn ardaloedd Llanilltud Faerdre a Phen-tyrch. Ymhen ugain mlynedd byddai wedi llwyr ddiosg yr ymagwedd ymddiheurgar-ymgreiniol a nodweddai ei ymwneud â Coplestone ar ddechrau ei yrfa. Bellach, dangosai duedd amlwg i dorri ei gŵys ei hunan ac i lwyr anwybyddu unrhyw fath o feirniadaeth ar ei weithredu; nid oedd y duedd hon yn eglurach yn unman nag yn ei aelodaeth o Fwrdd Gwarcheidwaid Caerdydd.



**Bwrdd y Gwarcheidwaid**

Sefydlwyd Bwrdd y Gwarcheidwaid yn 1836. Ei swyddogaeth oedd arolygu'r Tloty ac ymateb i anghenion y tlodion yn gyffredinol yng Nghaerdydd a'r ardaloedd amgylchynol. Roedd gan Gaerdydd ei hunan ryw hanner dwsin o gynrychiolwyr ar y Bwrdd ond deuai'r rhan fwyaf o'r hanner cant o aelodau o'r pentrefi gwledig cyfagos – Sain Ffagan, Llandaf, Yr Eglwys Newydd, Pen-tyrch, Sain Nicolas, Eglwys Ilan, Llanilltud Faerdre, Llanilltern, Radur, Cogan ac eraill tebyg. Cyfeiriai'r Wasg Saesneg yng Nghaerdydd, yn wawdlyd braidd, at gynrychiolwyr y pentrefi fel 'The Country Guardians'

Yn wahanol i gynrychiolwyr Caerdydd, yr oedd y Gwarcheidwaid Gwledig i gyd yn Gymry Cymraeg, y rhan helaethaf ohonynt yn ffermwyr a nifer ohonynt heb fawr ddealltwriaeth o'r Saesneg. Ac yn arweinydd naturiol arnynt am flynyddoedd lawer oedd Horatio Thomas a oedd, er 1836, wedi cynrychioli Pen-tyrch ar y Bwrdd. Yn nes ymlaen, yn 1859, cafwyd rhyw fath o 'ddealltwriaeth etholiadol' a symudodd Thomas i gynrychioli Llanilltud Fardre gerllaw, gan ennill ei 'sedd' o 106 phleidlais i'r 72 a enillwyd gan ei wrthwynebydd, David Thomas, ffarmwr lleol. Gwasanaethodd Horatio Thomas ar y Bwrdd am fwy o flynyddoedd na'r un aelod arall.

Pleidleisiai'r Gwarcheidwaid Gwledig bob tro yn unol â dymuniad Horatio Thomas a hyn er rhwystredigaeth fawr i gynrychiolwyr Seisnig Caerdydd. Byddai grym ei bersonoliaeth yn drech nag unrhyw wrthwynebiad. Cafwyd enghraifft o hyn yn niwedd 1858. Roedd Horatio Thomas wedi dechrau coleddu'r syniad mai unig amcan aelodau Caerdydd fel Gwarcheidwaid oedd cael gweld eu henwau a darllen eu hareithiau eu hunain yn y papurau newyddion lleol – yn bennaf, yn y *Cardiff Times*. I'w 'cosbi' am y cymhelliad annheilwng hwn, cynigiodd Horatio Thomas y dylid gwahardd aelodau o'r Wasg rhag cael mynediad i

gyfarfodydd o'r Bwrdd o hynny allan. Bu cryn ddadlau a ffraeo. Trodd Horatio Thomas at y Gwarcheidwaid Gwledig a'u hannerch yn Gymraeg. Protestiodd un o gynrychiolwyr Caerdydd gan ofyn a oedd yn fwriad troi iaith y cyfarfod yn Gymraeg. Cydiodd y cadeirydd yn yr awenau ac eglurodd wrth y cynrychiolwyr gwledig natur y drafodaeth yn Gymraeg. Pleidleisiodd 20 o blaid Horatio Thomas – yr aelodau gwledig i gyd – ac 11 (o Gaerdydd, yn bennaf) yn erbyn, a bu raid i gynrychiolwyr y Wasg ymadael â'r cyfarfod.

Cythruddwyd y wasg leol. Dan y pennawd 'Return to the Dark Ages' cafwyd ymosodiad chwyrn ar Horatio Thomas yn y *Cardiff Times.* Nid oedd ganddo, ym marn y papur, 'neither the wisdom nor the discretion to deal with a social problem' (Tachwedd 6 1858). Bythefnos yn ddiweddarach cafwyd ymosodiad arall dan y pennawd 'Cardiff's disgrace and Horatio's glory.' Yn rhifyn Ionawr 15 1859 cyhoeddodd John Willett, arwerthwr o Gaerdydd a phennaf gwrthwynebydd Horatio Thomas ar y Bwrdd, lythyr hir yn ei feirniadu ac yn sôn am 'the suppression of the Press by the Pentyrch clique'. Ond tybed nad dangos ei nerth oedd prif amcan Thomas yn hyn o beth canys ymhen ychydig wythnosau cytunwyd i dderbyn y wasg yn ôl yn y cyfarfodydd. Er hyn, daliodd y *Cardiff Times* i ymosod ar Thomas; mewn nodiadau golygyddol ar Fawrth 5ed 1859 dan y pennawd 'Horatio's comedy of errors' soniwyd am 'the large majorities the Reverend Horatio Thomas is wont to command'

Fis yn ddiweddarach cododd mater penodi Meistr y Tloty. Roedd Edward John wedi ei ddiswyddo oherwydd ei ddiota a'r gred gyffredinol oedd nad oedd yn llwyr onest wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Bu trafod penodi rhywun i'w swydd. Ond roedd John yn Gymro Cymraeg ac yn dipyn o ffefryn gan Horatio Thomas a welai'r perygl o benodi Sais yn ei le. Felly, cynigiodd fod y Bwrdd yn ailbenodi John er ei holl wendidau. A dyna a wnaethpwyd – penodwyd John yn Feistr a'i wraig yn Fetron,



gweithred a ddisgrifiwyd gan y *Cardiff Times* (Ebrill 9 1859) fel 'an outrage upon everything that is decent'. Ond heriwyd dilysrwydd y penodiad ar sail dechnegol a bu'n rhaid cynnal ail bleidlais bythefnos yn ddiweddarach. Bellach, yr oedd ail ymgeisydd yn y maes a bu'r ornest rhwng Mr a Mrs John a rhyw Mr a Mrs Wright. Y tro hwn nid oedd unrhyw amheuaeth am y canlyniad – carfan Horatio Thomas a orfu o 39 pleidlais yn erbyn 4 ac ailbenodwyd John yn Feistr ar gyflog blynyddol o £52.10s a'i wraig yn Fetron ar gyflog o £30, ynghyd â'u cynhaliaeth.

Ond collodd Horatio Thomas un frwydr yn ei ryfel o blaid Cymreictod. Yn 1860 bu farw Jelinger C. Symons, un o'r tri Chomisiynydd a fu'n gyfrifol am lunio Adroddiadau Addysg 1847 ('Y Llyfrau Gleision), dyn nad oedd yn meddu ar unrhyw gydymdeimlad arbennig tuag at y Gymraeg – er iddo, yn 1848, ymroi ati i ddysgu Cymraeg dan gyfarwyddyd y Parchedig G. Edwards, Llangollen. (*Yr Haul* 13 (1848) 269). Adeg ei farwolaeth roedd Symons yn Arolygwr ar Ysgolion y Tlotai yng nghylch Caerdydd. Felly, barnai Horatio Thomas, yn rhinwedd ei swydd fel un o'r Gwarcheidwaid yng Nghaerdydd, fod ganddo bob hawl i ddweud gair am benodi olynydd iddo. Lluniodd ar y cyd â'i gyd-warcheidwad Cymroaidd John Bird, 'ddatganiad' i'w gyflwyno ar ran y Bwrdd i sylw Pwyllgor y Cyngor dros Addysg. Byrdwn y datganiad oedd y dylai olynydd Symons fod yn Gymro, neu, a dyfynnu o'r Saesneg wreiddiol: [dylid cydnabod] 'the necessity of taking into serious consideration the peculiar circumstances and condition of the Principality [trwy benodi] … a gentleman acquainted with the habits and feelings of the people.' Ond rhyw draean yn unig o aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol y diwrnod hwnnw a methwyd â chael cefnogaeth i'r cynnig.

Cododd mater y Gymraeg a phenodiadau'r Bwrdd drachefn ymhen tair blynedd. Yr oedd dwy ferch dan ystyriaeth am y swydd o athrawes – Miss Sarah Jewry o Gernyw a Miss Margaret

John o Dreganna (Caerdydd). Gan Miss Jewry yr oedd y cymwysterau academig gorau ar gyfer y swydd – roedd hynny'n ddigon amlwg i bawb. Ond wrth ateb cwestiwn gan Horatio Thomas dywedodd Miss John ei bod yn frodores o blwyf Sant Andreas gerllaw, ac yn fwy na hynny, ei bod yn medru'r Gymraeg. Ar unwaith cynigiodd Horatio Thomas fod y Bwrdd yn penodi Miss John. Bu'r ffraeo arferol ac aethpwyd ati i gynnal pleidlais. Sylwyd fod un o'r Cymry ('an old Welshman' chwedl adroddiad y *Cardiff Times*) yn ansicr pa ymgeisydd i'w gefnogi. Daeth Horatio Thomas i'r adwy. Defnyddiodd ei dechneg arferol o annerch y Cymry yn eu hiaith eu hunain a chan osod y pwyslais yn y mannau priodol, bloeddiodd y cwestiwn syml ar draws y bwrdd 'Pa un ych chi'n mofyn, y Saesnes neu'r Gymraes ?' Protestiodd y cadeirydd yn erbyn ' y dull hwn o weithredu' – ond yr oedd yn rhy hwyr a phenodwyd Margaret John o 11 bleidlais yn erbyn 5.

Cafwyd yr ymosodiad arferol ar Horatio Thomas yn y *Cardiff Times* (Ionawr 24 1862).

> 'Generalship is the forte of our old friend the Rev. Horatio Thomas. He only wants an occasion and he is sure to appear in his own character ... when he elicited that Miss John was a Welsh-woman, he gave one of his peculiar looks across the table to his old *confreres* - the country guardians - were sitting, as much as to say, this is the woman you must vote for ...

Nid ymddengys fod sylwadau o'r fath wedi mennu'r un dim ar Horatio Thomas. Ymhen y flwyddyn (Mai 1864) bu'n rhaid penodi Swyddog Meddygol (meddyg) i wasanaethu ardal Llandaf. Pwysleisiodd Thomas unwaith eto'r pwysigrwydd o benodi Cymro Cymraeg i'r swydd ac fe atgoffaodd y Bwrdd fod cyfartaledd uchel o drigolion ei ran ef o'r ardal (hynny yw, Pen-tyrch) heb yr un gair o'r iaith Saesneg. Nid rhyfedd fod Thomas wedi ennill yr enw o fod yn ymladdwr dygn o blaid y Gymraeg.



**Gweithgareddau cymunedol**

Roedd Pen-tyrch yr adeg honno yn fwrlwm o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg. Roedd cryn fynd ar gystadlu eisteddfodol ac fel y dadlennwyd gan y llythyru yn *Y Gwladgarwr* roedd yna gryn ymwybyddiaeth gymdeithasol yn bresennol hefyd. Roedd yr hen arferiad Cymreig o gyfansoddi a chyhoeddi penillion cyfarch a choffhad hefyd yn lled gyffredin. Byddai'r rhain yn cael eu hargraffu'n bamffledyn neu yn daflen a'u dosbarthu ymhlith cyfeillion y gwrthrych. Yn 1849 cyhoeddodd John Dafydd o Ben-tyrch ddeg pennill o *Llinellau coffadwriaethol am y brawd teilwng Dafydd John, diacon parchus yn Nghroesyparc, wedi bod dros 56 mlynedd yn aelod diargyhoedd o gyfundeb y Bedyddwyr.*

Ddwy flynedd yn ddiweddarach cyhoeddodd John Morgan *Ychydig o benillion ar yr achlysur o farwolaeth John Christopher o Pentyrch, Swydd Forganwg, yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon, Chwefror 19eg 1851 yn 40 mlwydd oed – gwedi bod yn aelod ffyddlon gyda'r Bedyddwyr yn Penuel.* Awgrymir gan y trydydd pennill mai glöwr a fu farw mewn damwain danddaearol oedd Christopher:

> Pan ar lwybr ei ddyledswydd
> Lawr yn eigion daear laith,
> Yno yn ddiwyd 'nol ei arfer,
> Didwyll ydoedd yn ei waith;
> Darn o'r ddaear syrthiodd arno,
> Rhodd ei esgeiriau ar wahan,
> Yno teimlodd farwol ergyd,
> Eto diolch oedd ei gân.

Nid honno oedd yr unig ddamwain o bell ffordd. Ar Ragfyr 6ed 1862 cafwyd gan William Morgan (gweler isod) adroddiad yn *Y Gwladgarwr* am ddigwyddiad anffodus 'ym Mhwll Mwn, Pentyrch, pryd y syrthiodd darn ... yn agos i 200 o dynelli o 70 latheni o uwchder ar Evan Williams pan yn gweithio yn ngwaelod

y pwll, a laddwyd ef ar yr eiliad ... yr oedd yn ddyn priod a gwraig a phedwar o blant i alaru ar ei ol. Y mae yn dda genyf hysbysu fod Mr Booker, perchenog y gweithiau, wedi bod yn haelionus iawn yn yr amgylchiad pwysig.'

Bu bri ar eisteddfota hefyd – yn bennaf, mae'n debyg, fel dihangfa rhag trallod, undonedd ac ansicrwydd bywyd pob dydd. Cynhelid eisteddfodau ym Mhen-tyrch ei hunan, rhai mân dan adain y capeli yn ogystal â rhai sylweddol hefyd megis yr un a gynhaliwyd yn Nhachwedd 1857. Bu'r ardaloedd cyfagos yn enwog oherwydd eu heisteddfodau a phobl a chorau Pen-tyrch â lle amlwg yn y gweithgareddau. Ar Fai 7fed 1851 enillodd Côr Pen-tyrch y wobr o £2 yn [Eisteddfod] Cynhadledd Flynyddol Undeb Iforawl Pontypridd ac yn nes ymlaen yn yr un flwyddyn (dydd Alban Hefin) bu'r un côr yn cymryd rhan (mewn modd 'tra rhagorol') yn agoriad swyddogol Eisteddfod y Maen Chwyf (*Y Gwladgarwr* (Caerfyrddin) 2 (1851) 27, 187)

Yn Eisteddfod Ffynnon Taf ar ddydd Mawrth y Sulgwyn, 1858, enillwyd y gystadleuaeth 'tri englyn i Bont Grogedig Gwaith Haearn Pentyrch' gan William Morgan (Gwilym Brycheiniog), ond odid y pennaf o feirdd eisteddfodol cylch Pen-tyrch. Ei englyn cyntaf oedd:

Pont gyfleus uwch pant go flin – rhag difrod
Rhwysg dyfroedd Taf gethin
Yn rhwydd er pob garw hin
Awn drosodd yn dra iesin.

Yr un William Morgan oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth 'Pryddest o drigain llinell ar 'Farwolaeth J.W.Booker, Ysw'' [Un o Bookeriaid gweithfeydd Pen-tyrch] yn Eisteddfod Gwauntreoda [Yr Eglwys Newydd, Caerdydd] ym Medi 1862. Un arall o feirdd Pen-tyrch oedd Ioan Ffynnon Catwg (John Llewellyn, Ffynnon Catwg/Catwg Cottage, 1811-1895); yn rhifyn Ebrill



1851 o *Y Gwladgarwr* (Caerfyrddin), cylchgrawn misol yr Iforiaid, cyhoeddodd ateb ar ffurf rhigwm i bos mathemategol a osodwyd yn rhifyn Chwefror o'r un cylchgrawn.

Am Eisteddfod Bethlehem (Gwaelod-y-Garth) ar brynhawn Sadwrn, Awst 22 1863, adroddwyd fod 'y tŷ yn rhy fach i gynnwys y gwrandawyr i gyd ...' a chafwyd gair o gerydd gan un o'r beirniaid i'r perwyl '... y byddai'n lles mawr i'r brodyr ieuanc astudio y rheolau, cynghanedd, iaith & C.' Yn Eisteddfod Caerffili ar Fedi 7fed 1863 enillwyd y wobr o £4 am draethawd ar 'Y Meddwl' gan y Parchedig E. Jones, gweinidog Penuel, Pen-tyrch. Ni chyfyngid y diddordebau llenyddol i gylch yr eisteddfod yn unig; gwelwyd, er enghraifft, enw Thomas John, Tŷ Pica, Pen-tyrch, ymhlith y tanysgrifwyr i gyfrol swmpus y *Myfyrian Archaeology* yn 1872.

Ymddengys fod Horatio Thomas wedi cyflym ymdoddi i'r gweithgareddau lleol hyn. Ymdaflodd i waith eisteddfodol gan ennill cryn boblogrwydd fel arweinydd a chadeirydd er nad oes unrhyw dystiolaeth ei fod ef ei hunan erioed wedi dangos unrhyw ddawn ar yr ochr lenyddol. Mor gynnar â 1838 gwelwyd ei enw ymhlith y rhestr o '160 o enwau'r rhai a oedd wedi tanysgrifio at gadw 'Y Maen Chwyf' (Teml Dderwyddol dybiedig) yn sefyll ar fynydd Coedpenmaen ger Pont y ty pridd' (*Seren Gomer* 21 (1838) 300). A phan gynhaliodd Cymreigyddion y Maen Chwyf eu 25ain Gylchwyl ar Ddydd Alban Hefin, 1839, rhoddwyd y wobr o ddwy bunt am ddeuddeg o englynion coffa gan 'Y Parch Mr Thomas, Periglor Pentyrch'. (*Seren Gomer* 22 (1839) 152)

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, Horatio Thomas a lywyddai yn Ail Gylchwyl Cymreigyddion Llantrisant 'ar ddydd yr Hen Nadolig, sef y 6ed o Ionawr 1841'. Bu'n amlwg hefyd yn Eisteddfod Llanbedr y Fro ym Mai 1864 pryd y bu Côr Pentyrch (arweinydd Charles Prichard) yn gyd-fuddugol. Sylwodd Horatio Thomas, ar yr achlysur hwnnw, fod tair wedi cystadlu ar y

gystadleuaeth 'gwau par o hosannau' a bod y beirniad wedi rhannu'r wobr rhwng dwy ohonynt, gan adael y drydedd gystadleuwraig, 'yn hen wraig dlawd', heb ddim; felly'r hyn a wnaeth Horatio Thomas oedd ei gwobrwyo o'i boced ei hunan.

Ni chyfyngid ei ddoniau eisteddfodol i gylch Pen-tyrch yn unig. Weithiau mentrai draw i Gaerdydd megis ar gyfer Eisteddfod Caerdydd ar Fai 31 a Mehefin 1 1858. Hon oedd un o eisteddfodau pwysica'r cylch ac yn achlysur rhwysgfawr dan nawdd nifer o bwysigion de Cymru – Robert Windsor Clive, Godfrey Morgan (Tredegar) ac eraill – a'r awyrgylch, yn unol â thraddodiad ymgreiniol y cyfnod, yn Seisnigaidd iawn. Nicholl Carne o Gastell Dimland, Llanilltud Fawr oedd y cadeirydd ('wedi gwisgo yn ei fantell goch a'i gwcwll colegol'). Cynigiodd y Parchedig N. Thomas, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Tabernacl, Caerdydd, 'fod y Parch Horatio J. Thomas, periglor Pentyrch, i gymmeryd y gadair isaf'. Derbyniwyd y cynnig a phan ddaeth tro Thomas i annerch y gynulleidfa fawr, yn Gymraeg y dewisodd wneud hynny. (Ceir manylion llawn am yr Eisteddfod yn *Seren Gomer* 51 (1858) 327-333)

Nid na fu arweinyddiaeth Horatio Thomas ar eisteddfodau bob amser yn llwyr ddi-fai. Profodd gryn drafferth wrth geisio dod ag elfen o drefn i Eisteddfod Caerffili ar 2 Chwefror 1863:

> [The Eisteddfod] ... was commenced in the Long Room of the Boar's Head Inn but the place was so overcrowded that the chairman (The Rev. H.J. Thomas of Pentyrch) could not succeed in keeping any kind of order and the meeting ... proceeded to Tonyfelin Baptist Church where prizes were awarded ... before returning to the Long Room. The confusion and noise, with the exception of the two hours in the Chapel ... were indescribable. (*Cardiff Times* Chwefror 6 1863)

Ond un wedd yn unig ar ei weithgareddau cymunedol a gynrychiolid gan ei gefnogaeth i'r eisteddfod. O'r cychwyn cyntaf, ac yn ychwanegol at ei ddyletswyddau eglwysig yn



Llanilltud Faerdre a Phen-tyrch, bu Thomas yn weithgar yn y gymuned leol – megis ar 21ain Mehefin 1851 pan gafodd aelodau Iforiaid Pen-tyrch ei gwmni yn eu cyfarfodydd blynyddol. Fel hyn y disgrifiwyd yr achlysur yn *Y Gwladgarwr* (Caerfyrddin):

> Cynhaliwyd Gwyl Iforaidd Gwenynen, Pentyrch, ar yr 21ain o Mehefin, yn Arwydd y Glowyr, yn nhy ein hanwyl frawd Thomas Llewelyn. Am 10 o'r gloch, cyfarfuasom yn ystafell y Gyfrinfa, a daeth amryw i ymweld â ni o wahanol Gyfrinfaoedd trwy'r Adran, ac aethom yn orymdaith luosog i Eglwys y plwyf, le cawsom bregeth ragorol, gan ein hanwyl frawd Mr Thomas, (yr hwn sydd Iforiad trwyadl.) Gwedi dychwelyd, cawsom giniaw o'r darpariad goreu gan Mrs Llewellyn. Gwedi symud y llieinau, galwyd ar ein Parch. frawd H.G. [*sic* ] Thomas, i'r gadair ... a Chôr Pentyrch, ddaeth yn ei lawn donau, i ganu eu cerddi swynawl, nes llenwi pob calon ag hyfrydwch. Felly mae'r wénynen yn myned ym mlaen mewn cariad, rhifedi, a chyfoeth nes mae y cwch gwedi ei lenwi o fêl:-
>
> Am hyn cyn iddi fyn'd yn hwyr
> O gwyr mi wneuthum gaban;
> A deued gauaf pan y del,
> Mae'n llawn o fel fel y rwan.
>
> Pan ruo'r gwynt, a'r cenllysg ddaw,
> Plith gwlaw i guro'r hirnos;
> Mor glyd-gysurus fydd ein byd,
> 'Nghyd yn y crwybr diddos.'
>
> Pentyrch ALLTUD (*Y Gwladgarwr* [Caerfyrddin] 2 (1851) 255)

['Gwenynen' oedd enw cyfrinfa Pen-tyrch o'r Iforiaid a'u man cyfarfod oedd tafarn y 'Colliers' Arms' [ = 'Arwydd y Glowyr'] wrth ochr heol y mynydd o Waelod-y-Garth i Ben-tyrch ac yn y fan honno y cynhelid eisteddfod flynyddol yr Iforiaid hefyd. Yn y 'King's Arms, ar y llaw arall, y cyfarfyddai cyfrinfa Pen-tyrch o'r Odyddion.]

Daliodd Thomas yn weithgar gyda'r Iforiaid a'r Odyddion ar hyd y blynyddoedd a hyn ar adeg pan oedd gweinidogion anghydffurfiol braidd yn gyndyn o ymwneud â mudiadau seciwlar o'r fath. Mudiad llwyr Gymraeg oedd yr Iforiaid ac iddo amcan deublyg – 'ei bod yn amcanu cadw'r iaith Gymraeg yn iaith lafaredig hyd derfyn amser a bod yr aelodau yn talu bob mis i drysorfa a bod yr arian yn cael eu had-dalu mewn symiau penodedig i'r heintus, i'r weddw ac i'r sawl sydd dan wasfeion a thlodi'. (*Ystorfa y Bedyddwyr,* 2 (1839) 354) 'Tad Iforiaeth' yn y cylch oedd John Phillips (Shôn o'r Lan), aelod blaenllaw ym Mhenuel, ac wedi hynny yn Salem Gwaelod-y-Garth. Sefydlodd Phillips dair cyfrinfa yn y cylch: 'Illtyd Sant' (Llanilltud Faerdre), 'Gwenynen' (Pen-tyrch) a 'Twyn yr Aderyn Du' (Tŷ Nant, Treforgan/Pentre-poeth). 'John Phillips o'r Lan' oedd testun cystadleuaeth y fawlgan yn Eisteddfod Iforaidd y *Colliers' Arms* yn 1857. Yr enillydd oedd 'Ifor Ochr y Graig'; cynhwysai ei gerdd fuddugol y llinellau:

'Sion Phillip ymdrechodd, do gweithiodd heb rith
E ddygodd Iforiaeth, degodiaeth i'n plith;
A breiniau ddwg ini rifedi y gwlith;-
Bu'n faeth i 'Lanilltyd', daeth llonfyd i'r llan,
Trwy feithrin cymdeithas mor addas i'r gwan;
I gleifion a gweddwon rho'n rhyddlon eu rhan'.

Ymhlith y pregethwyr anghydffurfiol lleol a fodlonai gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Odyddion a'r Iforiaid oedd Edward Mathews (Ewenni), Lewis Powell (Caerdydd), a William Evans (Tonyrefail). (Roedd Evans yn gryn ffefryn ym Mhen-tyrch; bu'n pregethu yn Horeb ar achlysuron ei agor yn 1839 a'i ail-agor yn 1863.) Ond nid oes amheuaeth nad Horatio Thomas oedd yr amlycaf o'r clerigwyr lleol a gefnogai'r mudiadau dyngarol hyn; ef oedd i fod llywyddu yn yr Eisteddfod Odyddol 'yn nhŷ Marchnad, Tongwynlais' ar ddydd Llun Tachwedd 23 1863 ond



ar yr achlysur hwnnw methodd â bod yn bresennol a chymerwyd ei le gan William Morgan (gweler uchod).

Er yr anghydfod ynghylch anghydffurfiaeth a'r ysgol leol yn 1861, nid ymddengys fod Thomas wedi coleddu unrhyw fath o elyniaeth neu ddicter at anghydffurfiaeth yr ardal. Yn wir, y mae pob tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn cydnabod grym a safle'r capeli anghydffurfiol, ac yn wahanol i nifer o'i gyd-glerigwyr ni fu'n amharod i gymryd rhan yn rhai o'u gweithgareddau. Trefnai fod yr ysgol yn cau pan fyddai cymanfaoedd pregethu neu gyfarfodydd arbennig eraill yn y capeli lleol.

Ambell waith byddai'n cynorthwyo'r capeli mewn modd ymarferol – megis wrth roi help llaw i Fronllwyn, capel yr Annibynwyr, yn 1866. Yr oedd lloriau pren Bronllwyn wedi pydru'n llwyr a rhaid oedd codi £500 i osod lloriau newydd. Er bod nifer yr aelodau wedi gostwng yn sylweddol erbyn diwedd y 1860au, llwyddwyd i godi'r swm angenrheidiol ac ailagorwyd y capel ym Mai 1871. Ond bu raid cynnal pob math o weithgareddau cyn llwyddo i godi'r £500. Ymhlith y rhain oedd darlith gan Y Parchedig E. Hughes; testun y ddarlith oedd 'Cydweithrediad' – pwnc addas iawn, fel mae'n digwydd, gan mai'r cadeirydd am y noson oedd neb llai na'r 'Parchedig H.J.Thomas, ficer y plwyf.' Tua'r un adeg cafwyd Cyrddau Mawr ym Mronllwyn ei hunan pryd y llwyddodd pregethu nerthol gan bump o bregethwyr gwâdd i godi £22 at glirio dyled y lloriau pwdr (*Y Diwygiwr* 31 (1866) 283, 284).

Y mae cyfeiriadau niferus eraill at ymwneud Thomas â phob math o weithgareddau cymunedol yn y plwyf – cyfarfodydd amaethyddol, ciniawa dathlu o bob math ac yn y blaen. Ddiwedd Awst 1863 bu'n bresennol mewn cinio yn Llanilltud Faerdre pan ymunodd â 250 o weithwyr i ddathlu 'ennill' gwythïen newydd o lo o ansawdd uchel. A dyfynnu'r *Cardiff Times* ar yr achlysur 'cwrw da was in no way deficient' yno. Cynigiwyd llwnc-destun

i Horatio Thomas fel un a oedd 'â'i law ym mhob achos da yn y plwyf'. Bob Dydd Nadolig byddai'n trefnu, ar ei draul ei hunan, fod cinio Nadolig o gig eidion a chwrw ar gael yn yr Hen Dafarn, Llanilltud Faerdre, ar gyfer aelodau Côr Eglwys Llanilltud Faerdre ac mi fyddai ef ei hunan yn llywyddu ar y gwledda.

Ond yr oedd yna wedd arall ar bersonoliaeth Horatio Thomas hefyd. Daeth yn weithgar mewn cylchoedd a oedd rhywfaint yn llai dyngarol nag eiddo'r Iforiaid a'r eisteddfodau lleol a chyngherddau'r cylch. Fel y rhan fwyaf o'i gyd-glerigwyr, roedd yn gefnogwr agored i'r Blaid Dorïaidd. Cefnogodd ymgyrch N. Edwards Vaughan i gynrychioli Morgannwg yn etholiad 1857 a chwaraeodd ran amlwg yn ymgyrch (aflwyddiannus) Gifford i gipio sedd Bwrdeistrefi Caerdydd, Llantrisant a'r Bontfaen i'r Toriaid yn 1868, gan siarad ar ran Gifford mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn y cylch. (*Merthyr and Cardiff Guardian* Mawrth 21 1857; Tachwedd 9 1868)

Gallai ei 'geidwadaeth frogarol' ei arwain i gyflawni gweithgareddau pur adweithiol weithiau – megis a ddigwyddodd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwarcheidwaid yn Nhachwedd 1858. Lluniaeth y Tloty oedd y pwnc dan sylw. Derbyniai'r preswylwyr 15 owns o gig, 36 owns o datws ac 84 owns o fara y pen bob wythnos. Roedd hyn yn llai, fel mae'n digwydd, na lwfans y carcharorion yng Ngharchar Caerdydd ar y pryd a chafwyd cynnig y dylid ei godi. (Mae'n amlwg nad oedd pethau wedi gwella rhyw lawer oddi ar 1838 pryd y dechreuodd Robert Thomas o Ferthyr ei benillion i Dloty Caerdydd gyda'r llinell 'Tŷ cawl dŵr, tŷ caled yw') Ond gwrthwynebwyd hyn gan Horatio Thomas a ddadleuai na ddylid gosod baich ychwanegol ar ysgwyddau'r trethdalwyr, a fodd bynnag, yr oedd y ddogn bresennol, fe honnodd, yn well cynhaliaeth nag eiddo llawer o'r tlodion ym mhlwyf Pen-tyrch.



Ond mae'n debyg mai'r gweithgaredd a ddadlennodd ddylanwad a phŵer Thomas ar eu hamlycaf oedd ei aelodaeth o Festri Pen-tyrch. Hyd nes y diwygiwyd llywodraeth leol yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu gan y Festri gryn ddylanwad ym materion plwyfol – megis wrth bennu a chodi trethi, gofalu am y tlodion, goruchwylio cyflwr yr heolydd a'r pontydd ac yn y blaen.

Horatio Thomas a gadeiriai'r cyfarfodydd o'r Festri hyd at ddiwedd y saith degau a Charles Prichard oedd yr ysgrifennydd – cyfuniad tra grymus. Trwy weithrediadau'r Festri llwyddodd y ddeuddyn hyn i lywio datblygiad Pen-tyrch am gryn ddeugain mlynedd. Ambell waith (megis wrth bleidleisio i benodi casglwyr trethi) byddai hyd at gant o blwyfolion yn bresennol ond fel arfer rhyw ddwsin yn unig fyddai'n mynychu cyfarfodydd o'r Festri. Droeon bu raid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod am wythnos a threfnu ei ailgynnal, yn amlach na pheidio ymhen yr wythnos un ai yn y *Kings Arms* neu yn y *Rock and Castle.*

**Y Gymraeg**

Hyd at yn gymharol ddiweddar, ystyrid fod Pen-tyrch yn blwyf Cymraeg a Chymreig. 'Bu Pentyrch erioed yn enwog am ei Gymreigrwydd, am ei sêl dros bopeth Cymreig' meddai Griffith John Williams yn ei ragair i *Trethiant Plwyf Pentyrch, Morgannwg* [Evan Phillips] (Caerdydd, 1941). Cyfeirir yn aml at y ffaith mai yn yr iaith Gymraeg y cedwid cofnodion y cyngor plwyf hyd at yn gymharol ddiweddar. Mae Cyfrifiad 1891, y cyfrifiad cyntaf i roi cyfrif am gyflwr yr iaith yn y plwyf, yn tystio'n eglur i Gymreictod Pen-tyrch yr adeg honno. Un rheswm am barhad yr iaith mor agos i Seisnigrwydd Caerdydd oedd natur ynysig Pen-tyrch a thuedd ar ran y trigolion i briodi o fewn y plwyf; hyd at yn gymharol ddiweddar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg eithriad fyddai'r sawl a fentrai y tu allan i ffiniau Pen-tyrch neu'r plwyfi cyfagos i chwilio am gymar

priodasol. Byddai rhai yn teithio draw i Gaerdydd i briodi, ran fynychaf yn Ebeneser, capel yr Annibynwyr dan weinidogaeth yr adnabyddus Lewis Powell. Ond priodi 'o fewn y plwyf' y byddai'r rheiny hyd yn oed. Rhwng 1848 a 1851 cafwyd y datganiad 'eill dau o Bentyrch' ar gyfer o leiaf wyth o'r priodasau yn Ebeneser a gofnodwyd yn nhudalennau *Y Diwygiwr.*

Diau fod yr Iforiaid (ac i raddau llai, yr Odyddion) hefyd yn ffactor o bwys ym mharhad yr iaith ym Mhen-tyrch trwy estyn ei theyrnas i diriogaeth 'led-swyddogol'. Yr oedd i weithgareddau'r Gyfrinfa leol ('Gwenynen') le amlwg yn y plwyf (gweler uchod). Cymraeg oedd iaith yr holl weithgareddau ac yn ôl cyfansoddiad y mudiad bu'n ofynnol i'r ysgrifennydd gadw'r cofnodion yn yr iaith honno; Cymraeg hefyd oedd iaith y ffurflenni swyddogol a ddefnyddid gan yr aelodau i hawlio taliadau o 'Flwch' y Gyfrinfa yn ystod cyfnodau o salwch ac ar gyfer genedigaethau ac angladdau. Yn ychwanegol at eu taliadau misol i'r gronfa gymunedol ('Y Blwch') disgwylid i bob aelod gyfrannu ceiniog y flwyddyn at gynnal cystadleuaeth Gymraeg yn eisteddfod flynyddol y Gyfrinfa (*Deddfau a rheolau diwygiedig Undebiaeth y Gwir Iforiaid* (Caerfyrddin, [1844]).

Yn ail hanner y ganrif bu cryn fewnlifiad o weithwyr di-Gymraeg i weithio yng ngweithfeydd Pen-tyrch. Tuedd y Saeson a'r Gwyddelod hyn oedd ymffurfio'n gymuned Saesneg yng nghyffiniau *Square Row* a leolwyd lle y mae cae rygbi Ffynnon Taf heddiw. Ymhlith y teuluoedd a drigai yn *Square Row* ac *Engine Houses* yn 1891 yr oedd 113 o siaradwyr di-Gymraeg a 38 a fedrai'r iaith – hynny yw, y ganran o siaradwyr Cymraeg oedd 25%. Ond yn y gweddill o'r plwyf yr oedd rhyw 1200 o siaradwyr Cymraeg a 97 o rai di-Gymraeg – canran o 93% a oedd yn medru'r Gymraeg, a nifer ohonynt yn Gymry uniaith.

At ei gilydd, Saesneg oedd iaith plant *Square Row* ond i fyny ym Mhen-tyrch yr oedd y gymuned yn ddigon Cymreigaidd i droi



plant mewnfudwyr yn Gymry Cymraeg megis a ddigwyddodd, er enghraifft, yng Nghefn Bychan. Yn byw yn rhif 7 Cefn Bychan oedd Thomas Gardner a'i wraig Louisa, ill dau'n frodorion o Swydd Henffordd ac yn ddi-Gymraeg. Bob ochr iddynt (rhifau 6 a 8) yr oedd teuluoedd Cymraeg yn byw a'u plant yn medru'r Gymraeg. Nid rhyfedd felly fod pedwar plentyn y Gardneriaid wedi codi'r iaith a'u cofnodi'n ddwyieithog yn y Cyfrifiad.

Cymraeg, wrth reswm, oedd iaith y capeli a'r Ysgolion Sul cysylltiedig. Hyd at 1848 Cymraeg oedd unig iaith yr Eglwys hefyd lle y cynhelid un gwasanaeth bob Sul (am 11 neu am 3, bob yn ail), er mai uniaith Saesneg oedd Ysgol Sul yr Eglwys dan arolygiaeth Horatio Thomas yn ôl ei adroddiad i'r Comisiynwyr yn 1847. Erbyn 1850 cynhelid gwasanaethau Saesneg yn yr Eglwys yn ogystal â rhai Cymraeg. A Saesneg, a Saesneg yn unig, oedd iaith yr ysgol ddyddiol ar hyd y ganrif. Byddai Côr Pentyrch, dan faton Charles Prichard, yn canu detholiad o ganeuon Cymraeg ar lwyfannau cyhoeddus yn y cylch ond caneuon Saesneg yn unig a ddysgid gan yr un Charles Prichard i blant yr ysgol ddyddiol.

Hyd yn oed yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ysgolfeistr newydd bellach wrth y llyw, yr un oedd y patrwm; ceir yn llyfr lòg yr ysgol restr o 13 o ganeuon y bu'n rhaid i'r plant eu dysgu – *The poor man's garden, This is the way to wash your hands, The sleigh ride,* a rhagor o rai tebyg, a'r cyfan, wrth reswm, yn Saesneg. Dadlennol hefyd oedd adroddiad y Comisiynwyr yn 1847 ar ysgolion y cylch. Mewn rhai ysgolion defnyddid y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg; digwyddai hyn yn ysgolion Gwenfô, Llanedeyrn, Llanisien, Llanhari, Nantgarw a Sant Siors. Ond fe waherddid y Gymraeg yn llwyr yn ysgolion Pen-tyrch a Llanilltud Faerdre – y ddwy ysgol yr oedd Horatio Thomas yn bennaf cyfrifol amdanynt. Er hyn, Cymraeg oedd iaith plant Charles Prichard a Chymraeg hefyd oedd iaith plentyn 'mabwysiedig' Horatio a Hannah Thomas. Ddoe fel heddiw, y

mae agwedd dyn at y Gymraeg yn aml iawn yn dadlennu cryn anghysondebau a chymhlethdodau personoliaeth.

Ond ymhell cyn ail hanner yr ugeinfed ganrif yr oedd y Gymraeg wedi diflannu oddi ar wefusau'r genhedlaeth iau yn y plwyf - a hyn mewn plwyf a fu'n llwyr Gymraeg ei iaith ryw ddeugain mlynedd ynghynt. Bu'r newid yn un syfrdanol ac ar sawl cyfrif yn anodd iawn ei egluro.

**Epilog**

Darfod fu tynged y gymdeithas glos hon a oedd am gynifer o flynyddoedd i bob pwrpas yn uniaith Gymraeg, er bod y 'cof cymunedol' ohoni wedi goroesi ym Mhen-tyrch hyd at yn gymharol ddiweddar. Roedd Charles Prichard yn gryn gyfaill i dadcu'r diweddar T.W.Thomas (ab Eos), Pen-tyrch a bu cof byw gan 'T.W.' am ymweliadau Prichard â theulu'r Thomasiaid ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif – 'yn dipyn o fardd gwlad a'i hystyriai ei hun yn well o dipyn na thrigolion cyffredin Pen-tyrch' chwedl 'T.W.' Pan fu farw Prichard yn 1912 chwalwyd ei gasgliad helaeth o nodiadau a defnyddiau yn ymwneud â hanes lleol Pen-tyrch, er cryn golled i haneswyr lleol.

Roedd y ficer eisoes wedi ei ragflaenu ar ei daith i'r byd arall – bu Horatio Thomas farw ar Fedi 17 1880 yn 76 oed ac ar ôl cwblhau 46 o flynyddoedd yn y fywoliaeth. Nid oedd sôn am ei farw yn nhudalennau *Yr Haul* (misolyn Eglwysig) nac yn y *Cyfaill Eglwysig,* peth nid llwyr annisgwyl efallai o gofio mai dyn ei filltir sgwar fu Horatio Thomas erioed. Ond, ac efallai am y tro cyntaf yn ei fywyd, cafodd gryn sylw yn y *Western Mail* (Medi 18, 23, 1880) Adroddwyd bod nifer sylweddol o bobl a phlant Pen-tyrch yn bresennol yn ei angladd yn Eglwys Pen-tyrch ar ddydd Mercher, 22 Medi, ynghyd â rhyw ddwsin o glerigwyr a gweinidogion o'r cylch ond neb, fe ymddengys, o uchel-swyddogion yr Esgobaeth. Yn arwain y galarwyr roedd ei ddwy



chwaer 'Mrs Evans, Pentyrch a Mrs Canghellor Williams, Basaleg'. Cyfeiriwyd at ei galon fawr a'i barodrwydd bob amser i gynorthwyo'r tlodion. Hawdd cytuno â'r datganiad angladdol nad oedd dim byd o bwys wedi digwydd ym Mhen-tyrch yn ystod y deugain mlynedd flaenorol nad oedd a wnelo Horatio Thomas ag ef.

Yn ôl un traddodiad ym Mhen-tyrch, llosgwyd llyfrgell helaeth Horatio Thomas ar Fynydd y Garth yn fuan ar ôl ei farw. Paham y penderfynwyd gwneud hyn sy'n dipyn o ddirgelwch os nad oedd y llyfrau yn rhai 'amharchus' (neu efallai, yn rhai a ystyrid yn ddiwerth am eu bod yn llyfrau diwinyddol). Ymddengys fod Hannah Thomas wedi cael aros ymlaen yn y Ficerdy am beth amser o leiaf canys yng Nghyfrifiad 1881 preswylwyr y Ficerdy oedd Hannah Thomas a John Thomas ei 'nai' 28 oed (bellach yn briod â Cecilia, 33 oed) a ddisgrifiwyd fel 'farmer of 20 acres'. Hefyd yn byw yn y Ficerdy, a hyn yn annisgwyl braidd, oedd Theophilus Rees, olynydd Horatio Thomas fel Ficer Pen-tyrch ac a ddisgrifiwyd fel 'boarder'.

Gydol ei gyfnod ym Mhen-tyrch, tueddai Horatio Thomas i agor ei gwysi ei hunan ac, i raddau helaeth iawn, i weithredu'n annibynnol ar y sefydliad eglwysig. Y mae mwy nag awgrym ei fod wedi defnyddio'r offeiriadaeth yn bennaf fel dyfais i gadarnhau ei safle o awdurdod yn y gymdeithas. Tenau iawn yw'r wybodaeth a feddwn am ddyfnder a dwyster ei argyhoeddiadau diwinyddol. A llac oedd y cysylltiad rhyngddo a'r sefydliad eglwysig. Nid felly ei olynydd Theophilus Rees. Yn fuan ar ôl symud i Ben-tyrch ymaelododd Rees yn Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ac fe'i penodwyd yn aelod o 'The Llandaff Welsh Church Press Committee' pan sefydlwyd ef yn 1884. Diben y Pwyllgor oedd arolygu cyhoeddiadau Cymraeg yr Eglwys ac fe'i sefydlwyd ar gynnig cyfaill i Rees, y Canon William Evans o Rymni. Rees hefyd a

oedd yn gyfrifol am drefnu'r darlithiau Cymraeg achlysurol a draddodwyd o dro i dro yng ngwahanol blwyfi'r Esgobaeth.

Ond ar ôl cwta dair blynedd ar ddeg ym Mhen-tyrch symudodd Rees i borfeydd brasach Llanedeyrn. (R'oedd ei ddau ragflaenydd wedi gwasanaethu plwyf Pen-tyrch am gyfanswm o dros ganrif – Thomas Thomas o 1774 hyd 1833 ac Horatio Thomas o 1834 hyd 1880). Erbyn hynny yr oedd Ficerdy newydd wedi'i godi ym Mhen-tyrch (yn 1890) ac yn unol ag argymellion y Comisiynwyr Eglwysig cynhwysai dair ystafell dderbyn a phum ystafell wely, y cyfan yn gryn welliant ar y tŷ cymharol fechan a fu'n drigfan i Horatio Thomas am dros chwarter canrif.

Roedd yr hen fywyd cymunedol Cymraeg i ddal yn ei rym am nifer o flynyddoedd eto a chafwyd, o dro i dro, ambell adlais o'r hen fywyd gynt. Yn 1881 bygythiwyd bywyd Mr John Evans, Pen-tyrch, 'un o arolygwyr hynaf Mr Winfield (etifedd Arglwydd Dinefwr)' gan un a'i galwai ei hun yn 'Lefroy'. Cafodd Evans gerdd o gydymdeimlad gan William Morgan (Gwilym Brycheiniog) a oedd wrthi o hyd ar ôl deng mlynedd ar hugain o brydyddu yn yr ardal. Fel hyn y dechreuodd y cyntaf o'r saith pennill a gyhoeddwyd ganddo yn *Y Gwladgarwr* ar Ragfyr 23 1881:

Meistr John, mae'n flin iawn gennyf
Fod un Lefroy o fewn ein gwlad
Gwell yw genyf finiog gleddyf
A gelyn noeth ar faes y gad.

Ond yr oedd hadau hunanddinistriad yn y tir ar raddfa weddol eang erbyn hyn ac araf ddarfod fu hanes yr hen fywyd cymunedol Cymraeg o hynny allan, er bod Pen-tyrch, fel y crybwyllwyd uchod, yn dal yn bentref tra Chymraeg adeg Cyfrifiad 1891. Pan sefydlwyd cangen newydd o'r 'Coedwigwyr' ym Mhen-tyrch ym Medi 1880 'yn y Lewis Arms Hotel, Penygarn' penderfynwyd ar yr enw Saesneg 'Pride of Pentyrch' – arwydd sicr o'r patrwm ar



gyfer y dyfodol. Bu Hannah Thomas farw ar Orffennaf 2 1897 a'i chladdu yn yr un beddrod â'i gŵr, wrth ddrws y festri ym mynwent Eglwys Pen-tyrch. Arysgrif uniaith Saesneg sydd ar y garreg – fel sydd ar garreg fedd Charles Prichard a'i wraig o ran hynny ym mynwent Penuel gerllaw. Arwydd go bendant mai i'r gorffennol pell y perthynai digwyddiadau 1861, a bod cyfnod arbennig bellach wedi dod i ben.

**Ffynonellau, yn ychwanegol at y rhai a nodir yng nghorff y drafodaeth.**

Deunydd ym meddiant Archifdy Morgannwg, Caerdydd, sef:
Llyfr lòg Ysgol Pen-tyrch
Dyddiaduron William Thomas, Sain Ffagan (1820-1823)
Adroddiadau wardeiniaid yr eglwys, Pen-tyrch
Llyfr 'memorandwm' (ail-godi Eglwys Pen-tyrch)
Llyfr Festri ['Resolution Book'] Plwyf Pen-tyrch
Llyfrau cofnodion Bwrdd Gwarcheidwaid Caerdydd

Davies, J. Barry a Llewellyn, Don 'The Parish Church of St Catwg' *The Garth Domain* 6 (1999)

Davies, Margaret *A study of local government in Pentyrch in the nineteenth century.* (Caerdydd, 1987)

Holiaduron Gofwy'r Esgob, Esgobaeth Llandaf, plwyf Pen-tyrch; atebion y clerigwyr (1848) a'r wardeiniaid eglwys (1845). (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth)

Jones, Evan *Adgofion am ddeugain mlynedd o'm gweinidogaeth* (Caerfyrddin, 1894) [bellach, am ryw reswm, yn llyfr prin iawn – copi'r Llyfrgell Genedlaethol yw'r unig un y gwn i amdano.]
Idem, 'Atgofion am ddeugain mlynedd o'm gweinidogaeth: rhan II' *Yr Haul* 13 (1897) 129-32.

Llythyrau Edward Coplestone (Archifdy Eglwys Gadeiriol Llandaf)

Phillips, Evan *Llyfr Cronicl Phillipiaid Gwaelod-y-Garth* (Llandaf, 1942)

[Prichard, Charles] *Ar hanes helfa y llwynog a ollyngwyd ar Glawdd- Shôn, ac a laddwyd yn Sophia Gardens, Caerdydd, gan Gwn Pentyrch. Tôn, - 'Codiad yr ehedydd' Y geiriau Gan C.P. – P.* ( c. 1863, William Jones, Caerdydd). [Cyhoeddiad prin; mae ffotogopi ym meddiant Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan]